# BYRDDAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-19

## Trosolwg ar Amcanion a Chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru



Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol / National Probation Service
Cymru Wales
Heddlu•Police Dyfed-Powys
Powys
Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Hywel Dda University Health Board

# CYNNWYS

**Rhagarweiniad** **1**

**Amcanion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol** **2**

**Strwythur y Bwrdd** **3**

**(a)** Aelodaeth **6**

**(b)** Camau a gymerwyd i gyflawni ein canlyniadau **8**

**(c)** Y graddau yr ydym wedi gweithredu ein cynlluniau blynyddol strategol **10**

**(ch)** Sut rydym wedi cydweithio gyda chyrff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y Bwrdd **18**

**(d)** Ceisiadau a wnaed i bersonau cymwys dan Adran 137(1) ac a gydymffurfiwyd â'r rhain? **20**

**(dd)** Yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn **21**

**(e)** I ba raddau mae asiantaethau wedi cyfrannu i effeithiolrwydd y Bwrdd **26**

**(f)** Asesiad o'r modd y mae'r Bwrdd yn defnyddio'i adnoddau **36**

**(ff)** Themâu sylfaenol yn y ffordd y mae’r Byrddau Diogelu wedi ymarfer eu swyddogaethau **38**

**(g)** Pryd a sut mae oedolion a phlant wedi cael y cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd **40**

**(ng)** Ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion **46**

**(h)** Gwybodaeth neu ddysgu y mae'r Byrddau wedi eu lledaenu a'r hyfforddiant a argymhellwyd neu a ddarparwyd **46**

**(i)** Y ffordd y mae’r Byrddau Diogelu wedi gweithredu'r cyngor gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol **49**

**Y gwahaniaeth yr ydym ni'n ei wneud gyda’n gilydd** **50**

**Rhestr Termau** **51**

# Cyflwyniad

**Mae'n bleser inni gael cydgyflwyno Adroddiad Blynyddol CYSUR a CWMPAS, Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn erbyn y canlyniadau a bennwyd gan CYSUR a CWMPAS ym mis Mawrth 2018 fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd. Mae'r Byrddau wedi symud ymlaen i agenda Diogelu Pobl pob oed gyfunol, yn unol ag ysbryd ac ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gweithio ar y cyd ac mewn modd integredig rhwng Byrddau CYSUR a CWMPAS ar lefel Weithredol ranbarthol a lefel Is-grŵp bellach wedi'i wreiddio'n llawn yn strwythurau'r Byrddau ac mae'n rhan o fusnes pob dydd.

Gwelodd 2018-19 y Byrddau' n cwblhau nifer o brosiectau sylweddol, sef y Ddogfen Drothwy Ranbarthol ar gyfer Diogelu Oedolion, y Strategaeth Hyfforddi, a Strategaeth Ranbarthol VAWDASV a'r cynllun cyflawni 5 mlynedd. Roedd pob un o'r rhain yn gofyn am fewnbwn sylweddol gan weithwyr proffesiynol diogelu amlasiantaethol ymroddedig ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r prosiectau pwrpasol hyn wedi gosod y sylfeini ar gyfer darparu gwasanaethau diogelu ac ymarfer proffesiynol yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf.

Hoffem ddiolch i aelodau Byrddau Canolbarth a Gorllewin Cymru ac aelodau'r Is-grŵp am eu diddordeb, eu hymroddiad a'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae CYSUR a CWMPAS yn datblygu'n dda ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Byrddau y flwyddyn nesaf er mwyn parhau i wneud gwelliannau a gwella ymarfer ar draws y rhanbarth er mwyn amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed rhag y perygl o gael eu cam-drin.



**Jonathan Griffiths (Cadeirydd CWMPAS)**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngro Sir Penfro



**Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin

# Amcanion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Mae amcanion Byrddau Diogelu Rhanbarthol fel y'u hamlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel a ganlyn.

Amcanion **Bwrdd Diogelu Plant** yw:

- **amddiffyn** plant o fewn ei ardal sy'n profi, neu mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, ac
- **atal** plant o fewn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Amcanion **Bwrdd Diogelu Oedolion** yw:

- amddiffyn oedolion o fewn ei ardal –
  - sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth (p'un a oes awdurdod lleol yn cwrdd â rhai o'r anghenion hynny neu beidio), ac
  - sy'n profi, neu mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod, ac

  **atal** yr oedolion hynny o fewn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

**Arweiniad ynghylch swyddogaethau Byrddau Diogelu**

Mae canolbwynt y Byrddau Diogelu yn ddeublyg. Mae'r ffocws ar **amddiffyn** plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed ac **atal** plant ac oedolion rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Dylai'r ddau amcan hyn lywio blaenoriaethau'r Byrddau Diogelu pan fyddant yn ystyried eu rhaglenni gwaith a'u cynlluniau blynyddol, ac yn adolygu eu perfformiad.

Mae cadw plant ac oedolion, sydd ag anghenion gofal a chymorth, yn ddiogel yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel gyda'r rheiny y maent yn byw gyda hwy ac sy'n eu cynorthwyo ac yn gofalu amdanynt, yn ogystal â bod yn ddiogel mewn amgylcheddau y tu allan i'r cartref lle maent yn byw, teithio, chwarae, dysgu, gweithio neu'n cymryd rhan mewn chwaraeon, a gweithgareddau diwylliannol, hamdden a gweithgareddau eraill. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn gorffwys yn bennaf o fewn y teulu neu gyda gofalwyr ac o fewn y gymuned ehangach. Mae gan lawer o sefydliadau gyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion drwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn uniongyrchol iddynt, drwy'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd a gofalwyr neu drwy eu gwaith yn datblygu ac yn cryfhau cymunedau.




# Strwythur y bwrdd

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu cymunedau Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Phowys, gan weithio gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth o fewn sefyllfa amlasiantaethol. Nod y Byrddau yw codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu gydag aelodau'r cyhoedd a rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein cymunedau lleol, yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gwirfoddol a statudol. Mae dau Fwrdd Diogelu yn gwasanaethu Canolbarth a Gorllewin Cymru:

- **CWMPAS** [Gweithio ar y cyd a Chynnal Partneriaeth mewn Diogelu Oedolion]: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, a;
- **CYSUR** [Diogelu Plant a Phobl Ifanc, yn uno'r Rhanbarth]: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Strwythur Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru**




**Byrddau Gweithredol:**
Mae Byrddau Gweithredol CYSUR a CWMPAS yn gweithio gyda'i gilydd fel Bwrdd rhanbarthol trosfwaol i fonitro a gwella gweithgaredd diogelu rhanbarthol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Byrddau Gweithredol yn cynnwys uwch reolwyr o'r holl bartneriaid ac asiantaethau statudol allweddol (gweler y tabl aelodaeth). Nod y Bwrdd Gweithredol yw rhoi arweinyddiaeth ac arweiniad i'r holl asiantaethau sy'n perthyn iddo drwy gyflawni cyfres o flaenoriaethau strategol ar gyfer gweithgaredd ac ymarfer diogelu. Mae'r ddau Fwrdd Gweithredol yn cynorthwyo, yn arwain ac yn derbyn cyngor gan yr Is-grwpiau rhanbarthol.

**Grwpiau Gweithredu Lleol:**
Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol o fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal Grwpiau Gweithredu Lleol (GiauGLl). Mae pwrpas, aelodaeth a strwythur y Grwpiau hyn yn adlewyrchu rhai'r Byrddau Gweithredol. Fodd bynnag, amcan pennaf GiauGLl yw monitro a dadansoddi ymarfer diogelu yn lleol yn hytrach nag yn rhanbarthol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Plant ac Oedolion, sy'n cadeirio'r grwpiau, rheolwyr uwch a rheolwyr canol o asiantaethau statudol lleol, gan gynnwys Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r GiauGLl yn ceisio gwella ymarfer diogelu yn lleol drwy drafod gweithgaredd diogelu lleol mewn amgylchedd agored a thryloyw, gan rannu a dadansoddi data perfformiad lleol a chwblhau archwiliadau ymarfer er mwyn gwybod pa welliannau sydd eu hangen mewn ymarfer a chanfod perygl. Mae'r GiauGLl yn ceisio rhannu a chydnabod esiamplau o ymarfer diogelu da. At hynny, byddant yn herio'n broffesiynol ac yn galw asiantaethau i gyfrif pan fydd ymarfer diogelu yn syrthio'n is na'r safonau a ddisgwylir.



**Is-grwpiau Adolygu Ymarfer Rhanbarthol:**
Mae is-grwpiau Adolygu Ymarfer Oedolion (APR) ac Adolygu Ymarfer Plant (CPR) yn ystyried atgyfeiriadau oddi wrth asiantaethau lle mae plentyn neu oedolyn, oedd mewn perygl, wedi marw neu wedi dioddef amhariad sylweddol ar ei iechyd a'i ddatblygiad o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae'r Is-grŵp APR/CPR rhanbarthol yn ystyried gwybodaeth yn erbyn y meini prawf diffiniedig a geir yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion, a Chyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant'. Wedyn mae'n gwneud argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol perthnasol p'un a oes deilliannau dysgu wedi eu canfod ac a ddylid cynnal APR/CPR er mwyn dysgu gwersi. Cynhelir adolygiadau ymarfer gan grŵp o weithwyr proffesiynol, amlasiantaethol, fydd yn dadansoddi gwybodaeth gyda'i gilydd ac yn nodi unrhyw themâu ymarfer a gwersi i'w dysgu. Wedi hynny caiff yr adroddiad ei gyhoeddi fel Adolygiad APR/CPR ar wefan y Byrddau.



Digwyddiad Dysgu Adolygu Ymarfer Plant Amlasiantaethol

**Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol:**
Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau yn gweithredu ar y cyd ac mewn cysylltiad â'r Byrddau Gweithredol. Bwriad y Grŵp yw rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol drwy ddatblygu polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol.

Un amcan allweddol i'r Byrddau eleni yw gweithio tuag at ddatblygu'r polisïau a'r gweithdrefnau lleol presennol yn rhai rhanbarthol er mwyn bod o gymorth i hyrwyddo ymateb sy'n fwy cyson i ymarfer diogelu ar draws y rhanbarth.

**Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol:**
Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn gweithredu ar y cyd ac mewn cysylltiad â'r Byrddau Gweithredol. Ei fwriad yw cefnogi ac arwain yr hyfforddiant a'r dysgu diogelu a ddarperir ar draws y pedwar awdurdod lleol a chyrff asiantaethol sy'n bartneriaid. Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn gweithio'n agos gydag adrannau hyfforddi partneriaid er mwyn sicrhau a hybu ansawdd a chysondeb yn yr hyfforddiant diogelu a'r modd y mae'n cael ei ddarparu. Gall y grŵp gomisiynu hyfforddiant diogelu arbenigol, pwrpasol ar draws y rhanbarth ac mae'n gweithio'n agos gydag Is-grwpiau eraill megis Is-grwpiau APR/CPR er mwyn sicrhau bod unrhyw ddeilliannau dysgu sydd wedi cael eu nodi o ganlyniad i Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion yn cael eu rhannu ymhlith staff.

Gwelodd 2018-19 ddatblygu a sefydlu fforymau a grwpiau pwrpasol rhanbarthol. Mae'r grwpiau hyn yn rhoi cymorth ac maent yn cyd-redeg yn agos â chynllun strategol a blaenoriaethau'r Bwrdd, ac yn cynnwys creu Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF), Grŵp Arweinwyr Diogelu Oedolion amlasiantaethol, rhanbarthol a Grŵp Rhanbarthol o Gadeiryddion Cynadleddau Diogelu Plant.

**Grŵp Strategol Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**
Mae 'VAWDASV' yn effeithio ar holl ddinasyddion y rhanbarth ac mae'n cynnwys pob ffurf ar drais yn erbyn merched, trais seiliedig ar anrhydedd, priodasau gorfodol, anffurfio organau cenhedlu (FGM), masnachu pobl, trais a chamfanteisio rhywiol, a chamdriniaeth ddomestig. Mae Grŵp Strategol VAWDASV yn gydweithrediad amlasiantaethol, sy'n gyrru gofynion **Deddf VAWDASV** ymlaen, gan gynnwys datblygu a gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Rhanbarthol.

**CADW: Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau**
Mae Bwrdd CYSUR yn parhau i gomisiynu Gwasanaeth Eiriol Annibynnol Tros Gynnal i hwyluso ei Fwrdd Diogelu Iau. Mae'r grŵp yn parhau i gynghori'r Byrddau Gweithredol ar faterion diogelu a phroblemau o safbwynt person ifanc drwy gyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau ymgynghori. Mae Grŵp CADW yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei ategu gan dri grŵp diogelu iau lleol a phartneriaeth ieuenctid, gyda chysylltiad agos â'u Grwpiau Gweithredu Lleol.





# (a) Aelodaeth

## CWMPAS (Bwrdd Gweithredol Diogelu Oedolion)

**Jonathan Griffiths (Cadeirydd)**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Sir Penfro

**Anthony Griffiths (Is-gadeirydd)**
Ditectif Uwch-arolygydd
Heddlu Dyfed Powys

**Jake Morgan**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin

**Carys James**
Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion

**Alison Bulman**
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol;
Cyngor Sir Powys

**Sian Passey**
Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Sicrwydd a Diogelu Nyrsio Corfforaethol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Avril Bracey**
Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion
Cyngor Sir Caerfyrddin

**Donna Pritchard**
Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Diogelu Oedolion, MCA a Chamddefnyddio Sylweddau Cyngor Sir Ceredigion

**Jason Bennett**
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Cyngor Sir Penfro

**Michael Gray**
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Powys

**Christine Harley**
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

**Rhian Lovell**
Prif Swyddog Prawf Cynorthwyol,
Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

**Mandy Rayani**
Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Cleifion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Katrina Rowlands**
Cyfarwyddwr Nyrsio dros dro,
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Mandy Nichols-Davies**
Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs enwebedig)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Sonia Mason**
Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol
(Nyrs enwebedig)
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Karen Toohey**
Nyrs ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Daphne Rose**
Nyrs ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Nikki Harvey**
Pennaeth Diogelu
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Hazel Lloyd-Lubran**
Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Ceredigion o Sefydliadau Gwirfoddol (CAVO)

**Chris Harrison**
Cynrychiolydd Rhanbarthol
Penaethiaid Comisiynu

## CYSUR (Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant)

**Jake Morgan (Cadeirydd)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin

**Sian Passey (Is-gadeirydd)**
Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol Sicrwydd a Diogelu Nyrsio Corfforaethol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Jonathan Griffiths**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Sir Penfro

**Carys James**
Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion

**Alison Bulman**
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol;
Cyngor Sir Powys

**Anthony Griffiths**
Ditectif Uwch-arolygydd
Heddlu Dyfed Powys

**Stefan Smith**
Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin

**Anthony Maynard**
Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro

**Jan Coles**
Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys

**Christine Harley**
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

**Rhian Lovell**
Prif Swyddog Prawf Cynorthwyol,
Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

**Mandy Rayani**
Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Cleifion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Katrina Rowlands**
Cyfarwyddwr Nyrsio dros dro, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Mandy Nichols-Davies**
Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs enwebedig)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Sonia Mason**
Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol
(Nyrs enwebedig)
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Karen Toohey**
Nyrs ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Daphne Rose**
Nyrs ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Nikki Harvey**
Pennaeth Diogelu
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Hazel Lloyd-Lubran**
Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Ceredigion o Sefydliadau Gwirfoddol (CAVO)

**Steve Davis**
Cynrychiolydd Rhanbarthol
Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid

**Kate Evan-Hughes**
Cynrychiolydd Rhanbarthol
Cyfarwyddwyr Addysg

**Dr Ingrid Prosser**
Meddyg Enwebedig, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Dr Velupillai Vipulendran**
Meddyg Enwebedig, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## Uned Fusnes Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru


**Julie Breckon**
Rheolwr Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

**Rebecca Reynolds**
Swyddog Datblygu Busnes

**Stuart Hicks**
Cydlynydd Busnes

# (b) Y camau a gymerwyd i gyflawni ein canlyniadau

**Datblygu a Gweithredu Dogfen Drothwy Ranbarthol Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion mewn Perygl.**
Fe wnaeth Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (BDRhCGC) gwblhau a chymeradwyo **Dogfen Drothwy Ranbarthol Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion mewn Perygl** ym mis Gorffennaf 2018. Cafodd hon ei lansio'n swyddogol fel rhan o Gynhadledd Ranbarthol y Byrddau yn ystod gweithgareddau'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, ac roedd yn uchafbwynt prosiect heriol a chymhleth a gynhaliwyd gan y Grŵp Arweinwyr Diogelu Oedolion Rhanbarthol. Mae dileu'r termau 'niwed sylweddol' ac 'oedolyn agored i niwed' fel rhan o Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ynghyd â'r diffiniad newydd o 'oedolyn mewn perygl', wedi achosi dryswch ymhlith rhai gweithwyr proffesiynol ynghylch pryd a sut y dylent ofyn am gymorth a chefnogaeth i oedolion a allai fod yn agored i niwed ac angen cymorth. Bydd y ddogfen yn gymorth i ymarferwyr a rheolwyr i asesu'n ddiogel, ymchwilio a rheoli atgyfeiriadau ac adroddiadau am oedolion sydd mewn perygl a chefnogi ymarfer proffesiynol cyson.




*Darn allan o Ddogfen Drothwy Diogelu Oedolion*

**Datblygu Proses Ranbarthol ar gyfer Rheoli Hysbysiadau Cam-drin**
Mae'r ddyletswydd i adrodd dan Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau, adroddiadau a rhannu gwybodaeth gan yr heddlu yng ngwasanaethau diogelu drws ffrynt gofal cymdeithasol ar gyfer dioddefwyr Cam-drin Domestig. Wrth adolygu effaith hyn ar draws y rhanbarth, nodwyd bod llawer o'r atgyfeiriadau a'r hysbysiadau a anfonid yn amhriodol ac nad oeddent yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf addas. Nodwyd hefyd gymhlethdodau cyfreithiol ychwanegol lle nad oedd cydsyniad yr oedolyn yn cael ei sicrhau cyn atgyfeirio. Effaith hyn oedd nad oedd defnydd digonol yn cael ei wneud o gyfleoedd i gyfeirio dioddefwyr at wasanaethau ataliol mwy cymesur. O ganlyniad, cytunwyd ar broses newydd gyda Heddlu Dyfed Powys i arwain at sgrinio gwell a rheoli atgyfeiriadau cam-drin domestig. **Mae Goleudy, Gwasanaeth cefnogi dioddefwyr yr**

**Heddlu** yn awr yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio dioddefwyr at y gwasanaethau priodol yn y gymuned a gofyn am gydsyniad y dioddefwr cyn gwneud unrhyw gais am asesiad ar gyfer gofal a chymorth. Caiff unrhyw atgyfeiriadau ffurfiol ar gyfer oedolion mewn perygl eu gwneud drwy ddefnyddio'r **ffurflen atgyfeirio amlasiantaethol ranbarthol (MARF)**. Bydd datblygu a gweithredu'r broses hon yn gymorth i sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn cael cynnig cymorth drwy gyfrwng llwybrau addas a chymesur, a bydd yn gymorth i sicrhau yr ymatebir yn brydlon i'r rheiny sydd yn y perygl mwyaf.

**Datblygu Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer cynnal Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol**

Yn dilyn datblygu'r Fframwaith hwn yn 2017-18, sefydlwyd fforwm rhanbarthol i gefnogi a goruchwylio Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) yn 2018-19. Mae hwn yn ategu Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd am Berfformiad y Byrddau, a phroses Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion Rhanbarthol. Bydd y fforwm hwn yn cefnogi dysgu proffesiynol ac amlasiantaethol a bydd yn gymorth i wella ymarfer diogelu proffesiynol. Yn y flwyddyn sydd i ddod dylid gweld cynnydd yn nifer y MAPF fydd yn cael eu cynnal ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl.

**Datblygu a Chyhoeddi Strategaeth a Chynllun Cyflawni VAWDASV Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Fe wnaeth Grŵp Strategol VAWDASV Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru oruchwylio ac arwain datblygiad strategaeth ranbarthol, "Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach' a Chynllun Cyflawni 5 mlynedd yn unol â gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Cyhoeddwyd hwn a'i weithredu ym mis Tachwedd 2018. Mae cynghorwr rhanbarthol wedi cael ei benodi ers hynny i roi camau allweddol ar waith a nodwyd yng Nghynllun



# (c)Y graddau yr ydym wedi gweithredu ein cynlluniau blynyddol strategol

## 1 Ymgysylltiad Gwell

**Dangos bod llais plant ac oedolion mewn perygl yn ganolog i'n gwaith a bod barn plant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn dylanwadu ar ymarfer ac yn siapio gwasanaethau**

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:**

- Datblygu Rhaglen Ymgysylltu a Chyfranogi Ranbarthol gyda defnyddwyr y gwasanaeth
- Cryfhau perthynas y Byrddau â fforymau cenedlaethol a rhanbarthol eraill
- Codi ymwybyddiaeth o'r Byrddau, eu swyddogaethau eu proffil a'u gweithgareddau
- Parhau i gryfhau perthynas y Byrddau Gweithredol gyda'r Bwrdd Diogelu Iau

**What improvements we have made:**

Cynhaliwyd cynhadledd ranbarthol fel rhan o weithgareddau Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd 2018, yn dwyn y teitl Rhoi Llais a Rheolaeth wrth ganol Ymarfer Diogelu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Defnyddiwyd cyfleoedd i gynnal gweithdai gyda rhanddeiliaid, oedd yn nodi nifer o themâu y mae angen i'r Byrddau eu hystyried ar lefel ymarferol a strategol er mwyn ymgysylltu'n well â defnyddwyr y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddefnyddio eiriolaeth mewn ffordd fwy rhagweithiol, darparu hyfforddiant gwell ac arweiniad cliriach i weithwyr proffesiynol ar rannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Nodwyd hefyd yr angen i wneud defnydd gwell o'r fforymau oedolion presennol ar draws y rhanbarth fel llwybr i fynediad uniongyrchol at lais oedolion agored i niwed. Sefydlwyd cysylltiadau cryf â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru gyda golwg ar wneud peth gwaith cydweithredol gydag oedolion agored i niwed fel rhan o'i waith ymgysylltu ehangach â dinasyddion yn 2019-20 a gwaith ar Ddatblygu Gweithlu.

Gwnaed peth gwaith gyda'r pedair Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ranbarthol ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, a datblygwyd protocol sy'n gymorth i gyfathrebu'n well a chael y cyfle i rannu dysgu cyffredin o Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APRs) ac Adolygiadau Dynladdiadau Domestig (DHRs).

Mae Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gefnogi Bwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol (CADW), sy'n cael ei hwyluso gan Wasanaeth Eiriol Annibynnol Tros Gynnal Cymru. Mae'r Grŵp wedi bod yn ei le ers nifer o flynyddoedd ac wedi sefydlu'n dda yn y rhanbarth. Mae'r capasiti a'r newidiadau yn y personél yn Uned Fusnes y Byrddau a TGP wedi cael effaith ar gynnydd a chyflymder y gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf. Bydd atgyfnerthu'r gwaith a gyflawnwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn flaenoriaeth yn 2019-20.

Mae'r Bwrdd yn parhau i gyfathrebu â grŵp CADW gan ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol (Facebook a Twitter) a thudalen wedi ei neilltuo i CADW ar wefan y Byrddau.

Mae cynrychiolwyr CADW wedi cael y cyfle i gymryd rhan yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol i rannu eu pryderon a'u syniadau o ran ymarfer diogelu a sut y gellir gwella hyn.

Mae'r Byrddau wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o'u gwaith drwy gyfrwng nifer o sianelau. Buddsoddwyd rhagor o adnoddau mewn gwella cynnwys gwefan y Byrddau, drwy gomisiynu cwmni gwe-ddylunio lleol i uwchraddio ac ailddylunio'r wefan bresennol. Caiff y cynnwys ei adolygu yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i fwy o wybodaeth am y Byrddau fod o fewn cyrraedd y cyhoedd a gwella'r canolbwynt gwybodaeth i ymarferwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol, o ran polisïau a gweithdrefnau diogelu a chenedlaethol. Mae gwefan y Byrddau hefyd yn cynnwys dolenni cyswllt i safleoedd perthnasol eraill a fforymau defnyddiol, yn cynnwys y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Cynhaliwyd gweithgareddau hybu ar hyd a lled y rhanbarth fel rhan o Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2018, gan ddefnyddio gwefan y Byrddau a'r cyfryngau cymdeithasol. Manteisiwyd ar bob cyfle i gylchredeg dolenni cyswllt i staff, yn hytrach na dogfennau unigol, lle roedd modd, gan fod hyn yn gymorth i godi ymwybyddiaeth o'r Byrddau a'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan.

**Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:**

- Mae gan y Byrddau Gweithredol ddealltwriaeth well o sut i ddatblygu eu rhaglen ranbarthol o ymgysylltu ag oedolion sydd mewn perygl
- Mae cyfathrebu gwell wedi cryfhau'r berthynas rhwng Grŵp Iau CADW a Bwrdd Gweithredol CYSUR
- Mae llwybrau a sianelau cyfathrebu â fforymau rhanbarthol eraill wedi cael eu cryfhau ac mae cynlluniau wedi cael eu sefydlu ar gyfer gwaith cydweithredol yn y dyfodol.
- Mae hybu'r Byrddau a'u swyddogaethau ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau dinasyddion o fewn eu cymunedau a'u hannog i adrodd am bryderon o ran pobl a all fod mewn perygl.



Aelodau CADW yn y Bwrdd Gweithredol, Ebrill 2018

**Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:**

- Datblygu'r gwaith ymgynghori a gynhelir gyda rhanddeiliaid ymhellach, i greu rhaglen ymgysylltu ranbarthol sefydledig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion
- Ymgysylltu a chyfathrebu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch ymarfer diogelu oedolion a sut y gellir gwella'r gwasanaeth a ddarperir.
- Parhau i gefnogi a datblygu'r Bwrdd Iau CADW rhanbarthol
- Cwblhau ac ail-lansio ail ddyluniad y wefan

**Bwrdd Diogelu Iau CADW:**

*"Mae'r cysylltiadau gyda Wendy wedi bod yn wych ac wedi ein helpu i ddeall yn well"*

## 2 Mwy o wybodaeth - Cael sicrwydd ein bod yn gwybod pwy yw'r plant a'r oedolion sydd yn y perygl mwyaf a'n bod yn eu diogelu'n effeithiol.

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:**

- Cynnal adolygiad o gryfderau a gwendidau ein gweithlu
- Datblygu a chyhoeddi strategaeth a chynllun cyflawni rhanbarthol VAWDASV
- Alinio ein hymchwil ranbarthol i hunanladdiad â Strategaeth Hunanladdiad a Hunan-niwed Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Deall Proses Ymchwilio Diogelu Plant yn well ar draws y rhanbarth
- Gwella rhannu gwybodaeth rhwng pobl broffesiynol

**Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:**
Cynhaliwyd ymarfer archwilio rhanbarthol 'dwys' mewn perthynas â datblygu'r gweithlu a chynaladwyedd. Comisiynwyd ymgynghorydd annibynnol i wneud gwaith ymchwil er mwyn nodi meysydd risg posibl wrth recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol rheng flaen statudol.

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn cynnwys cyfweliadau manwl â gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr ac adolygiad o ddata adnoddau dynol. Gwnaed nifer o argymhellion a rhoddwyd sicrwydd cyffredinol ynghylch nifer o arferion.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth, rhagamcanion ymddeoliadau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, trosiant staff, lefelau llwyth gwaith ac ansawdd goruchwyliaeth a chymorth rheoli.

Fel rhan o Gynllun Cyflawni Strategol rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru 2018-19, sef 'Bywydau Mwy Diogel, Cydberthnasau iachach' VAWDASV, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ar ymarfer mapio data, i'w ddefnyddio i nodi set o ddangosyddion rhanbarthol ar gyfer monitro a gwerthuso'r strategaeth yn effeithiol.

Sefydlwyd is-grŵp i ddatblygu Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr Rhanbarthol VAWDASV er mwyn sicrhau bod lleisiau goroeswyr yn cael eu clywed a'u bod yn helpu i wella polisïau ac arferion. Cynhaliwyd gweithdy rhanbarthol gan hwylusydd annibynnol i adolygu strwythur a threfniadau adrodd i'r Byrddau Gweithredol rhanbarthol.

Argymhellwyd y dylid sefydlu strwythur diwygiedig i gryfhau'r drefn lywodraethu, a bydd Grŵp Cyflawni Rhanbarthol newydd yn sbarduno gweithredu'r cynllun cyflawni.

Mae deall ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad mewn perthynas â phlant ac oedolion ifanc, yn ogystal â'r hyn a all helpu i atal hunanladdiad, wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Byrddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Fforwm Hunanladdiad a Hunan-Niwed Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi'i sefydlu, sydd wedi datblygu strategaeth atal. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu amcanion y strategaeth genedlaethol 'siarad â fi 2'.

Mae hunanladdiad a hunan-niweidio yn eitem sefydlog ar yr agenda yn y Byrddau Gweithredol Diogelu lle'r adroddir ar gynnydd yn rheolaidd. Caiff gwaith i ledaenu canlyniad yr ymchwil ymhellach, a wnaed ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru gan Brifysgol Caerdydd, a chyfleuster ymchwil CASCADE ei ystyried yn y flwyddyn i ddod gan yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol.

Mae anghysondebau data ar draws y rhanbarth, yn y dull y mae gweithwyr cymdeithasol a'r heddlu yn ei ddilyn mewn ymchwiliadau, pan ystyrir bod plant mewn perygl o niwed, wedi cael ei nodi fel rhan o Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad Rhanbarthol y Bwrdd. Mae'r Byrddau wedi

comisiynu ymgynghorydd annibynnol i ddadansoddi'r anghysondebau hyn drwy gynnal adolygiad thematig rhanbarthol o arferion. Bydd unrhyw themâu a nodir ac argymhellion a wneir fel rhan o'r adolygiad hwn yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae **Protocol Rhannu Gwybodaeth** amlasiantaethol rhanbarthol ar gyfer pob oed wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi, fydd yn gymorth ac yn symbylu rhannu gwybodaeth o ansawdd da rhwng gweithwyr proffesiynol mewn ffordd amserol.

**Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:**

- Rydym yn deall cryfderau a gwendidau ein gweithlu'n well
- Mae gennym lwyfan clir a gweledigaeth ranbarthol ar gyfer sicrhau bod holl ddioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu hamddiffyn yn well
- Bydd mwy o wybodaeth yn gwella ymatebion proffesiynol i blant a all fod mewn perygl
- Codwyd ymwybyddiaeth o blant ac oedolion sydd mewn perygl o hunanladdiad
- Bydd ansawdd rhannu gwybodaeth ynghylch plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gwella rhwng pobl broffesiynol

**Adborth gan Blant yng Nghymru:**

*"Rydym wrth ein bodd gyda'ch dogfen 'Y Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn' ac rydym yn cyfeirio ati ar ein cyrsiau hyfforddi."*

**Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:**

- Gweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i weithredu argymhellion Archwiliad Datblygu'r Gweithlu
- Ystyried argymhellion y gwaith a wnaed ar ymchwiliadau amddiffyn plant
- Lansio'r Protocol Rhannu Gwybodaeth

## 3 Dysgu Systematig

**Parhau i ddatblygu a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio fel bod y deilliannau i blant ac oedolion sydd mewn perygl yn gwella.**

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:**

- Datblygu Hyfforddiant Diogelu rhanbarthol a hyrwyddo dysgu amlasiantaethol
- Adolygu'r Fframwaith Perfformiad ac Adrodd Amlasiantaethol Rhanbarthol i gynnwys data amlasiantaethol
- Gwella ein proses o Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion

**Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:**
Mae **strategaeth Hyfforddiant Rhanbarthol ar gyfer Pob Oedran yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru** wedi'i chwblhau, er mwyn cynorthwyo asiantaethau sy'n bartneriaid i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfunol fel aelodau o'r Bwrdd Diogelu, fel yr amlinellir yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn wedi gosod y sylfeini ar gyfer parhau gyda gwaith amlasiantaethol, uchelgeisiol a chydweithredol.

Adolygwyd Data Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad amlasiantaethol rhanbarthol. Mae hyn bellach yn cynnwys data gan asiantaethau statudol y Bwrdd, gan gynnwys Heddlu Dyfed Powys ac Iechyd. Rhydd hyn ddarlun mwy cyflawn i'r Byrddau Gweithredol rhanbarthol o weithgarwch diogelu amlasiantaethol ar draws y rhanbarth ac mae bellach yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ymatebion yr Heddlu i gam-drin domestig, monitro troseddwyr rhyw a derbyn plant i ysbytai oherwydd hunan-niwed.

Ar ôl gweithredu'r protocolau APR & CPR rhanbarthol i gefnogi canllawiau statudol mewn perthynas ag ymgymryd ag Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, dechreuodd gwaith eleni ar ddatblygu pecyn cymorth adolygu ymarfer. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd yn darparu amrywiaeth o lenyddiaeth ranbarthol i gynnwys templedi a ffurflenni safonedig ar gyfer paneli adolygu a digwyddiadau dysgu.

**Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:**

- Mae gennym strategaeth a gweledigaeth glir ar sut i gyflawni ein cyfrifoldebau o ran hyfforddiant o dan ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mae ansawdd y data a ddarperir i'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol wedi gwella

**Comisiynydd Plant Cymru mewn ymateb i gyhoeddiad LIC ar Addysgu yn y cartref (1/2/18):**

*"..dylai pob plentyn gael y cyfle i gael ei weld a dylai ei farn a'i brofiadau gael gwrandawiad."*

**Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:**

- Cyflawni yn erbyn ein Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyfforddiant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwella'r ffordd y cyflwynwn ddata amlasiantaethol i'r Byrddau Gweithredol
- Nodi cyfleoedd i rannu dysgu ar draws asiantaethau

## 4 Arweinyddiaeth Gref

**Darparu arweinyddiaeth strategol ar draws y bartneriaeth mewn perthynas â diogelu**

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud:**

- Dylanwadu ar yr agenda ddiogelu strategol genedlaethol
- Gwella strwythur Grwpiau Gweithredol Lleol i adlewyrchu'r dull diogelu ar gyfer pob oed
- Gwella goruchwyliaeth y Bwrdd o'r Ymateb Gweithdrefnol i broses Marwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC)
- Datblygu strategaeth a gweledigaeth tymor hir

**Y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud:**
Mae'r Byrddau wedi dylanwadu ar yr agenda strategol genedlaethol ar gyfer plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru, ac ar gyfer darparu gwasanaethau fforensig meddygol i blant sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol drwy'r Canolfannau Ymosodiadau Rhywiol ac Atgyfeirio (SARC). Mae cyhoeddi'r canllawiau statudol drafft yn 2019 ar gyfer plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cael ei ystyried yn un o gyflawniadau tymor hir allweddol y Bwrdd ar ôl nifer o flynyddoedd o waith gan y Byrddau i amlygu'r angen am ddeddfwriaeth gryfach yng Nghymru ar gyfer y grŵp hwn o blant.

Mae diffyg darpariaeth briodol o wasanaethau fforensig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer plant sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol wedi bod yn sbardun allweddol i'r Byrddau Gweithredol rhanbarthol drwy gydol 2018-19. Nodwyd pryderon a diffygion penodol yng nghyd-destun argaeledd meddygon meddygol clinigol sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ymgymryd ag archwiliadau fforensig, a'r pellter y mae'n ofynnol i'r plant deithio ar gyfer yr archwiliadau hyn. Mae cynrychiolwyr rhanbarthol Iechyd a'r Heddlu wedi cyflwyno barn y Byrddau i dîm cydweithredol SARC De, Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae Cadeirydd Bwrdd CYSUR wedi cynnal trafodaethau gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwr GIG Cymru a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd Lleol i dynnu sylw at y diffyg sylweddol hwn yn y ddarpariaeth. O ganlyniad, cytunwyd ar fodel pediatrig interim sy'n darparu llwybrau cliriach i blant sydd wedi dioddef trais neu ymosodiad rhywiol.

Mae pob Grŵp Gweithredol Lleol wedi datblygu'n un cyfarfod lleol i bob oed, gydag un agenda gyfunol sy'n cwmpasu materion diogelu amlasiantaethol lleol.
Cynhaliwyd adolygiad o broses PRUDiC. Gweithredwyd strwythurau i ymgorffori'r broses o fonitro ac adolygu pob achos PRUDiC i'r is-grŵp CPR rhanbarthol. Mae systemau gweinyddol wedi cael eu hadolygu i sicrhau gwell monitro ac olrhain pob achos PRUDiC a chefnogi cyfathrebu gwell â Thîm Adolygu Marwolaethau Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:**


*"Diolch i chi am ddod a rhoi mewnbwn. Roedd yn llawn gwybodaeth ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr."*

**Y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni a pha wahaniaeth a wnaethom:**

- Bydd canllawiau statudol ar gyfer plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gwella ymarfer diogelu
- Mae Llwybrau Atgyfeirio a gwasanaethau fforensig i blant sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wedi gwella
- Mae mabwysiadu agenda gyfunol a dull 'diogelu pobl' o bob oed wedi gwella effeithlonrwydd a rheolaeth cyfarfodydd LOG
- Bydd systemau gweinyddol gwell yn gwella goruchwyliaeth ranbarthol ar blant sy'n marw'n annisgwyl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

**Yr hyn sydd angen i ni ei wneud eto:**

- Parhau i ymgysylltu â'r cydweithrediad SARC rhanbarthol er mwyn gwella gwasanaethau SARC ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gweithio i ddatblygu strategaeth a gweledigaeth dymor hir eglur ar gyfer y Byrddau.


Y rhai yr ydym wedi cydweithio â hwy a gweithredu ar y cyd i gyflawni ein hamcanion
Llywodraeth Cymru
Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill
Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru
Cymdeithasau Sefydliadau Gwirfoddol
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
Arolygiaeth Gofal Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Archwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

# (ch) sut rydym wedi cydweithio gyda chyrff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y byrddau

**Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Rheolwr Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy fynychu cyfarfodydd briffio rheolaidd gyda swyddogion y Llywodraeth i drafod gwaith y Byrddau. Mae'r Byrddau wedi cefnogi'r broses o ddatblygu'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol drwy hwyluso adborth gan aelodau'r Bwrdd, rheolwyr ac ymarferwyr i roi eu barn ar gynnwys a strwythur. Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol, ynghyd ag uwch reolwr gwasanaeth diogelu oedolion, yw cynrychiolydd Canolbarth a Gorllewin Cymru ar Fwrdd y Prosiect Cenedlaethol sy'n goruchwylio datblygu a gweithredu'r gweithdrefnau.

**Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill ledled Cymru**

Mae holl Reolwyr y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer dda, trafod meysydd i'w datblygu a nodi tueddiadau diogelu cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cydweithio â Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill yng Nghymru i gynllunio'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, gan ddatblygu themâu rhanbarthol i ddosbarthu'r gwaith a rhannu arferion da.

Ym mis Medi 2018, mynychodd Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol a Chadeirydd yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol a chymryd rhan mewn gweithdy, a gynhaliwyd gan fwrdd diogelu rhanbarthol Gogledd Cymru i gefnogi'r broses o ddatblygu Strategaeth Hyfforddi Gogledd Cymru.

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru**

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Mae cysylltiadau a chyfathrebu Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru â Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru wedi cael eu cryfhau. Cynhaliwyd adolygiad ar y cyd o Gynlluniau Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth a Diogelu gyda'r bwriad o nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Mae gwaith ar y cyd ar Ddatblygu'r Gweithlu a llais defnyddwyr gwasanaeth ac ymgysylltu â dinasyddion wedi ei nodi ar gyfer 2018-19.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymgysylltu a gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd wedi cynnal adolygiad o drefniadau amlasiantaethol ar gyfer darparu hyfforddiant diogelu ledled Cymru. Mae Rheolwr y Bwrdd a Chadeirydd yr Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol wedi mynychu gweithdai i ddatblygu fframwaith hyfforddi amlasiantaethol cenedlaethol.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Rydym wedi gweithio gyda'r AGC i roi gwybodaeth ar gyfer y gwahanol arolygiadau a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Cadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol, Uwch Reolwyr a Rheolwyr y Bwrdd Rhanbarthol wedi'u cyfweld ac wedi rhoi adborth ar arferion diogelu, llwyddiannau a heriau parhaus ar draws y rhanbarth.

**Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)**

Mae Bwrdd CYSUR wedi parhau i gefnogi gwaith yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol drwy osod gwybodaeth a digwyddiadau perthnasol ar wefan y Bwrdd a dosbarthu bwletinau i bartneriaid rhanbarthol. Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr Camfanteisio Rhywiol ar Blant yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru a chyflwynwyd hwn i'r ymchwiliad eleni.

**Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn y rhanbarth i ystyried sut y gallai'r rhyngwyneb rhwng y broses Adolygu Ymarfer a'r broses Adolygu Dynladdiadau Domestig ddod i gydredeg yn well er mwyn sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu'n eang. Datblygwyd a gweithredwyd protocol rhanbarthol i gefnogi gweithio cydweithredol ac i rannu dysgu.

**Barnardos Cymru – Prosiect Gwella**

Mae'r prosiect Gwella wedi dod i ddiwedd ei dymor cychwynnol o dair blynedd. Cytunwyd ar estyniad o flwyddyn. Nod y prosiect yw dangos tystiolaeth fod mwy o gymorth yn gynharach yn lleihau'r angen i ymyrryd yn ystod glasoed yn ddiweddarach, pan all gwendidau ddod i'r amlwg drwy fwy o berygl o gamfanteisio rhywiol neu drwy arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae nifer fechan o deuluoedd yn ardal Sir Gaerfyrddin wedi derbyn mewnbwn therapiwtig gan weithiwr prosiect Gwella fel rhan o brosiect peilot. Cynhaliwyd adolygiad ar yr ymyriad hwn gyda chanlyniadau cadarnhaol. Mae'r gwaith wedi cynnwys cefnogi cydberthnasau a sefydlogrwydd lleoliadau, cefnogi cynlluniau adsefydlu arfaethedig, gwaith taith bywyd a defnyddio egwyddorion Theraplay. Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnal gwerthusiad cenedlaethol llawn a disgwylir adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol yn Hydref 2019.




**Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mwynhau perthynas gadarnhaol â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB). Seiliwyd hyn ar ddeialog agored, cyfathrebu rheolaidd, trafodaeth iach a her. Mae'r NISB wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol yn rheolaidd ac mae'r aelodau wedi cefnogi cynadleddau rhanbarthol y Byrddau dros y tair blynedd ddiwethaf. Rydym yn edrych ymlaen at weld perthynas yr un mor adeiladol yn datblygu gydag aelodau newydd o'r Bwrdd a benodwyd yn gynharach eleni.

**Adborth gan un oedd yn bresennol:**

*"Roeddwn yn gweld y cwrs yn ddiddorol iawn ac rwyf wedi cael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i allu cynorthwyo plant sy'n profi trawma."*

# (d) Ceisiadau a wnaed i bersonau cymwys dan adran137(1) ac a gydymffurfiwyd â'r rhain?

Er mwyn galluogi neu gynorthwyo’r Byrddau i gyflawni eu swyddogaethau, mae Adran 137 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol & Llesiant (Cymru) 2014 yn caniatáu i Fyrddau Diogelu ofyn i berson neu gorff cymhwysol ddarparu gwybodaeth benodol. Ni wnaeth Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru unrhyw geisiadau o’r fath eleni.



# (dd) Yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn

**Cwblhau a Chyhoeddi Strategaethau a Pholisïau Rhanbarthol**
Cwblhawyd nifer o brosiectau hirdymor yn 2018-19, yn arwain at gyhoeddi tair strategaeth ranbarthol allweddol.

- **Dogfen Drothwy Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion**
- **Strategaeth Hyfforddi Canolbarth a Gorllewin Cymru**
- **Strategaeth** Ranbarthol VAWDASV i Ganolbarth a Gorllewin Cymru a'r **Cynllun Cyflawni** 5 mlynedd

Bydd y strategaethau hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau diogelu allweddol ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru dros y tair i bum mlynedd nesaf. Mae'r gwaith a wnaed mewn perthynas â hyfforddiant amlasiantaethol wedi cael ei gydnabod ar lefel genedlaethol, ac fe'i defnyddiwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru fel y sail ar gyfer datblygu fframwaith hyfforddi cenedlaethol. Y Ddogfen Drothwy Diogelu Oedolion Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru yw'r gyntaf o'i bath yng Nghymru ac mae'n cael ei defnyddio fel sail ar gyfer datblygu gwaith tebyg mewn Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill.

**Datblygu Agenda Diogelu Integredig Lawn ar gyfer pob oed**
Mae CYSUR a CWMPAS yn ddau fwrdd ar wahân. Fodd bynnag, mae ganddynt aliniad cryf iawn ac maent yn cydweithio'n agos ar lawer o amcanion a rennir. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Byrddau wedi esblygu i gyhoeddi Cynlluniau ac Adroddiadau Blynyddol Strategol ar y cyd.
Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2018, mae strwythur a rheolaeth busnes Bwrdd ar Lefel Weithredol wedi esblygu i fod yn un cyfarfod Bwrdd Rhanbarthol ar y cyd. Ategir hyn gan agenda ddiogelu pob oed integredig lawn. Mae'r model wedi cael ei efelychu ar lefel leol gyda phob un o'r pedwar Grŵp Gweithredol Lleol yn mabwysiadu'r un fformat. Mae esblygiad a dilyniant naturiol dull strategol y Bwrdd o ddiogelu yn effeithiol yn golygu bod CYSUR a CWMPAS bellach yn gweithredu ym mhob peth ond enw fel un Bwrdd Diogelu plant ac oedolion sydd wedi'i integreiddio'n llawn.

**Diwrnod Datblygu' Bwrdd Gweithredol Cyfunol**



Daeth aelodau gweithredol Byrddau CWMPAS a CYSUR at ei gilydd ym mis Chwefror 2019 i edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf a datblygu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod 2019-20. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn gyda thrafodaeth agored a gonest ynghylch yr hyn a ddisgwyliem i gyd gan y naill a'r llall. Dangosai hyn y graddau sylweddol yr oedd y Byrddau wedi datblygu a gwneud cynnydd i fod yn bartneriaeth waith hyderus ac effeithiol. Nodwyd ei bod yn hollbwysig i'r Byrddau barhau i gadarnhau a chryfhau'r dull pob-oed strategol o Ddiogelu, cynyddu capasiti o fewn yr Uned Fusnes a datblygu systemau gwell i adrodd am risg strategol lefel uchel i'r Bwrdd Gweithredu. Gellir gweld canlyniad llawn y dydd a blaenoriaethau'r Bwrdd am y flwyddyn sydd i ddod yng Nghynllun Strategol Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2019-20.

**Adborth gan Aelod o'r Bwrdd Gweithredol:**


*"Mae'r hyn yr ydym wedi e gyflawni yn ymddangos yn fwy real erbyn hyn – mae'n teimlo fel pe baem yn symud ymlaen gyda'n gilydd"*

**Cyhoeddi CWMPAS1 2018 Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno**

Yn 2018, cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru ei Adolygiad Cryno cyntaf o Ymarfer Oedolion, a ysgrifennwyd gan awdur annibynnol am yr amgylchiadau o gwmpas marwolaeth trychinebus gŵr oedrannus mewn cartref gofal. Mae casgliadau'r adolygiad wedi bod o gymorth i nodi nifer o feysydd ar gyfer gwelliannau sydd eu hangen o ran ymarfer proffesiynol amlasiantaethol, yn enwedig mewn gwasanaethau cartrefi gofal a nyrsio a gomisiynir ar gyfer pobl hŷn. Datblygwyd cynllun gweithredu rhanbarthol seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad ac mae'n cael ei weithredu.

**Cydweithrediad Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol dros yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol (NSGW18)**

Ym mis Tachwedd 2018, cyd-drefnodd a chynhaliodd Uned Fusnes y Bwrdd, mewn cydweithrediad â'r Grwpiau Gweithredu Lleol, raglen ranbarthol o ddigwyddiadau i gefnogi'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol. Sefydlwyd Grŵp Cynllunio Rhanbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad sy'n bartner, a chawsant gyfarfodydd rhithwir rheolaidd i gynllunio a chyd-drefnu rhaglen ranbarthol yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2018. Rheolwr a Chydlynydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol oedd y cysylltiadau rhwng y grŵp hwn a Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau eraill yng Nghymru, oedd i gyd yn gweithio ar y cyd i ddarparu dulliau ac adnoddau cyson y gellid eu defnyddio ym mhob ardal.



Mid & West Wales Safeguarding Board
Programme for National Safeguarding Week 2018

| NATIONAL RESOURCES | REGIONAL | LOCAL |
|---|---|---|
| Activities carried out prior to the week– across ALL themes: | | |
| National Safeguarding Week logo to be used by all organisations<br><br>Welsh Government Media Promotion throughout the week, using hashtags #NSW18Wales #WDGCymru18 | Dyfed Powys Police Force wide action:<br>1. Female Genital Mutilation (FGM) campaign launch<br>FGM awareness campaign was launched from the 05/10/2018 for 8 weeks. Dyfed-Powys Police are linking in with partners in Health to include FGM awareness into the National Safeguarding week. FGM home office literature disseminated to women's aid, children's services, health and other partners.<br>2. Cybercrime Awareness<br>On 5th of October a cybercrime training and awareness day held at Carmarthen police HQ in collaboration with Get Safe Online. Approximately 80 attendees from various external bodies and Public Service Boards including School head teachers, carers, the county council, the fire service and foster carer - staying safe online including online scams, malware, secure passwords, personal information, social media and child safety online.<br>3. Modern day slavery SIO Course<br>7th-9th November 2018 held at police HQ. It will be a course run jointly with CPS - lawyers also participating. An opportunity to learn more about running slavery/trafficking/exploitation investigations, which can be extremely challenging often with reluctant victims. | Ceredigion:<br>1. Money Trust - Talk Learn Do Grow to be run:<br>Cardigan: 30.11.18<br>Penparcau: 14.11.18 1:30-3:30pm, Family Centre<br>Aberporth: 14.11.18 1-3pm<br>Llanarth: 5.11.18 12-2pm<br>2. Llandysul Family Centre<br>A money advice session on the 8th November<br>3. Digital Communications and Cyber Crime UnitCorporate communication team to put out a publication around staying safe online and a link to the Get Safe Online website.<br>4. Ceredigion County Council<br>Newsmaster message will go out on Friday 9th November<br>Displays will go up in Ceredigion County Council Main office receptions ( Penmorfa and Canolfan Rheidol)<br>5. Coleg Ceredigion<br>Will deliver Tutorials to students on the theme of Exploitation and also cover & Bullying as it Anti Bullying Week, delivered across both campuses.<br>6. Family Centres<br>Displays utilising the links and information provided to support NSW and putting out information on Facebook.<br>7. Sessions to be held before, during and following NSW, which runs alongside let's talk money week<br><br>Powys:<br>1. Live streaming the Signs of Safety (SoS) Gathering (Live from Dublin) raising the profile of safeguarding and SOS Tuesday 6th –Thursday 8th November. The Media Resource Centre, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6AH, 9:00 am – 4:00 pm |

Dyfyniad o Raglen yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2018

**Cynhadledd Ranbarthol**

Roedd y Gynhadledd Ranbarthol, 'Gosod Llais a Rheolaeth yng nghanol Ymarfer Diogelu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru', yn llwyddiant ysgubol ac roedd dros 150 o gynrychiolwyr yn bresennol o bob cwr o'r rhanbarth.

**Adborth:**

*"Gwych i gael digwyddiad fel hyn yng Nghaerfyrddin."*

**Adborth:**

*"Mynd â gwybodaeth ddefnyddiol adref i weithio arni."*

Derbyniwyd adborth a gwerthusiadau ardderchog. Defnyddiwyd y digwyddiad fel llwyfan ar gyfer lansio dau o'r tri pholisi a strategaeth rhanbarthol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn: Strategaeth VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Cynllun Cyflawni pum mlynedd, a'r Ddogfen Drothwy Diogelu Oedolion Ranbarthol. Rhoddodd y Farwnes Finlay, Dirprwy Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi a Chadeirydd y Fforwm Galluedd Meddyliol Cenedlaethol, cyn-gynghorwr cenedlaethol VAWDASV Rhian Bowen Davies ac aelodau o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol

Cenedlaethol gyflwyniadau a hwyluso gweithdai. Rhannodd Goroeswyr Camdriniaeth Ddomestig eu profiadau personol o wasanaethau ac ymyriadau gan weithwyr proffesiynol fel rhan o brif gyflwyniad y gynhadledd.




Gweithiodd y Byrddau gyda Byrddau Rhanbarthol eraill a Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o wahanol fathau o gamfanteisio, gyda thestun gwahanol yn cael ei hybu bob dydd drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Byrddau.




Roedd y pynciau yr ymdriniwyd â hwy yn cynnwys camfanteisio troseddol, rhywiol ac ariannol, masnachu a chaethwasiaeth fodern. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill yn ystod yr wythnos yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, gyda digwyddiadau rhanbarthol yn cael eu hybu gan Heddlu Dyfed Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a chynhaliwyd llu o ddigwyddiadau lleol hefyd ym mhob ardal. Roedd digwyddiadau nodedig yn cynnwys cynhadledd amlasiantaethol ym Mhowys yn canolbwyntio ar gyfranogi ac ymgysylltu, a chodi ymwybyddiaeth o atal hunanladdiadau yng nghyntedd Neuadd Sir Benfro.



Fe wnaeth y Byrddau fwynhau cyfraniad gweithredol gan eu bwrdd cyfatebol iau yn ffurf Cynhadledd Gwarcheidwaid Diogelu Sir Benfro, lle derbyniodd y cynrychiolwyr fodiwl newydd, 'Cadw Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn Ddiogel yn Sir Benfro', a chwblhau gweithdy gydag Ymddiriedolaeth Goffa  Charlie Waller. At hynny, fe wnaeth pobl ifanc y Bwrdd Iau ddathlu'r gwaith a gwblhawyd ganddynt yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfle i'r rhai oedd yn bresennol weld amrywiaeth o brosiectau  y buont yn canolbwyntio arnynt yn 18-19.
in 18-19.

**Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys:**

- Sesiynau Cinio a Dysgu a gynhaliwyd drwy gydol yr wythnos ym Mhowys, gyda phwyslais ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

- Lansio hyfforddiant ar-lein ar Ymwybyddiaeth /Atal Hunanladdiadau yn Sir Benfro.

- Sesiwn ddiogelu ar gyfer pobl ifanc yn Sir Benfro ag anghenion ychwanegol, a gynhaliwyd gan y Gwarcheidwaid Diogelu Iau mewn cydweithrediad â Fforwm Dewisiadau Ieuenctid ar gyfer Pobl Ifanc.

- Digwyddiad adeiladu tîm rhwng Gwarcheidwaid Iau Sir Benfro a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

- Prosiect Plant mewn Angen a gynhaliwyd yn Ray Ceredigion i godi ymwybyddiaeth o beryglon 'magu perthynas amhriodol'.

- Cinio rhwng y cenedlaethau a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan cyn nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn canolfannau ar draws Ceredigion.

- Lledaenu gwybodaeth am gamfanteisio troseddol ar draws Rhyngrwyd Powys a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Cyfres o sesiynau cynghori a gynhaliwyd ar draws Ceredigion yn ymwneud â chamfanteisio ariannol, mewn cydnabyddiaeth o'r wythnos 'Gadewch inni siarad am Arian' oedd ymlaen yr un pryd.

- Stondinau a gweithgareddau a hyrwyddwyd ar draws Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, yn codi ymwybyddiaeth o ddiogelu oedolion a phlant a hybu'r addewid ar-lein.

- Amrywiaeth o ddigwyddiadau a gynhaliwyd ar draws ysbytai yn y rhanbarth, yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i ymwelwyr ar bynciau diogelu perthnasol.

- Heddlu Dyfed Powys yn cyflwyno gwersi ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn yr ysgolion lleol.

- Gwaith allgymorth mewn cartrefi gofal, cyfleusterau hamdden a chwaraeon ac amrywiaeth o ganolfannau eraill ac unigolion yn codi ymwybyddiaeth a chynnig arweiniad mewn perthynas ag amrywiaeth eang o bynciau yn ymwneud â diogelu.




# Rhai lluniau cyfunol o Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2018














Ar y chwith ac uchod: ymarferiad adeiladu tîm rhwng Gwarcheidwaid Iau Sir Benfro a staff uwch Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Penfro













Cynadleddau a gynhaliwyd gan y Farwnes Finlay (chwith isod) a Keith Towler (gwaelod, chwith). Roedd siaradwyr eraill yn ystod yr wythnos yn cynnwys Margaret Flynn, Rhian Bowden Davies a Joel Sven Martin

# (e) I ba raddau mae asiantaethau wedi cyfrannu i effeithiolrwydd y byrddau?

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gwneud cyfraniad gweithredol i waith Byrddau CYSUR a CWMPAS a'r gwaith parhaus o ddatblygu arferion diogelu ar lefel ranbarthol a lleol. Mae cynrychiolwyr Hywel Dda yn bresennol yn rheolaidd ac yn cyfrannu i'r Byrddau Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a'r Is-grwpiau. Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Nyrsio Corfforaethol Sicrwydd a Diogelu yw Is-gadeirydd Bwrdd Gweithredol CYSUR. Mae Hywel Dda yn parhau i chwarae rhan weithredol yn is-grwpiau amrywiol a grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Byrddau, ac maent wedi cyfrannu'n weithredol i ddatblygu strategaethau a pholisïau rhanbarthol. Mae Hywel Dda yn parhau i gyflwyno data ar berfformiad diogelu lleol i bob un o gyfarfodydd y Grŵp Gweithredol Lleol, sy'n galluogi ac yn cefnogi'r broses o fonitro ymarfer diogelu a nodi themâu a thueddiadau. Mae data a gwybodaeth ynghylch difrod briwiau gwasgu wedi eu datblygu a'u cyflwyno eleni. Mae'r Fframwaith Perfformiad Rhanbarthol wedi'i ddiwygio i gynnwys gwybodaeth am dderbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â hunan-niwed, gan gefnogi gwaith parhaus y Byrddau ar atal hunanladdiadau. Mae nyrs arweiniol LAC yn adrodd yn weithredol i'r Paneli Rhianta Corfforaethol rhanbarthol, gan roi sicrwydd ynglŷn â chyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol y Bwrdd Iechyd dros blant sy'n derbyn gofal.

Mae Hywel Dda wedi canolbwyntio ar wella canlyniadau i gleifion. Maent wedi gwneud gwaith i wella'r cyfathrebu rhwng asiantaethau pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Gwnaed gwelliannau hefyd drwy'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar godymau cleifion mewnol, ac mae rhaglen hyfforddi staff ar gyfer atal briwiau gwasgu wedi cael ei datblygu. Maent yn dal i gefnogi'r gwaith rhanbarthol parhaus ar Gamfanteisio Rhywiol ar Blant (CSE), ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf maent wedi datblygu gweithdrefn weithredu safonol electronig a system rybuddio ar gyfer cofnodion plant y nodwyd eu bod mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol.

Mae aelodau uwch y Bwrdd Iechyd wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol i geisio datrys yr heriau a nodwyd o ran y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) a ddarperir yn y rhanbarth.

**Esiampl o Ymarfer Diogelu**

Cafodd Nyrs Arweiniol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (yn y darlun) **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** ei chydnabod gan y Coleg Nyrsio Brenhinol yn eu seremoni wobrwyo flynyddol ac roedd hi yn ail yng nghategori Codi Ymwybyddiaeth o Ddiogelu.



## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)

Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Powys (PTHB) wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol i Fyrddau CYSUR a CWMPAS. Mae cynrychiolwyr PTHB yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Byrddau Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a holl gyfarfodydd yr Is-grwpiau ac maent yn cefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu ymarfer diogelu ar lefel ranbarthol a lleol. Mae gan y Bwrdd ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth a gwaith amlasiantaethol ac fe'u cynrychiolwyd yn holl grwpiau gorchwyl a gorffen y rhanbarth, ac maent wedi cyfrannu'n llawn i'r nifer fawr o brosiectau arbenigol sy'n mynd ymlaen.

Mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu cynorthwyol yw Is-gadeirydd Grŵp Gweithredol Lleol Powys, ac mae wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes Gofal Cymdeithasol ym Mhowys i ddatblygu a gwella strwythur y grŵp. Darparwyd cymorth hefyd i baneli apêl Cynadleddau Amddiffyn Plant, ac mae'r Cyfarwyddwr Diogelu cynorthwyol wedi cadeirio apêl gymhleth a heriol. Mae PTHB wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol i Baneli Adolygu Ymarfer Plant i gefnogi datblygiad dysgu amlasiantaethol rhanbarthol.

Mae staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gweithio mewn partneriaeth agos â'u partneriaid amlasiantaethol ym mhob un o feysydd yr agenda ddiogelu gan gynnwys MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol), MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd), MACSE (Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Amlasiantaethol), PRUDiC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod), Rhianta Corfforaethol, Adolygiadau Ymarfer ac Archwiliadau ac ati. Mae staff diogelu uwch yn hyrwyddo cyfranogiad plant yn yr agenda ddiogelu ac yn parhau i ymgysylltu â Grŵp 'Bwyta Moron' Diogelu Iau Powys.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad allanol Tawel Fan, gweithiodd PTHB mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gwblhau hunanasesiad a chynllun gwella cynhwysfawr. Mae hyn wedi gosod y sylfeini ar gyfer gwaith pellach i'w wneud ar draws gofal cymdeithasol gan y Grŵp Arweinwyr Diogelu Oedolion. Mae PTHB wedi ymgysylltu a gweithio'n adeiladol gyda Hywel Dda a Heddlu Dyfed Powys ar geisio gwelliannau i wasanaethau clinigol a fforensig ar gyfer dioddefwyr ymosodiadau rhywiol yn y rhanbarth.

### Esiampl o Ymarfer Diogelut

Mae **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** wedi datblygu Model newydd o Oruchwylio Grŵp Diogelu ar gyfer ei ymarferwyr. Bydd hwn o gymorth ac yn cefnogi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyder staff wrth gyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Diogelu Cenedlaethol)

Mae Tîm Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i wella diogelu ar draws GIG Cymru. Mae gweithwyr proffesiynol dynodedig y Tîm Diogelu Cenedlaethol yn aelodau o bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (oedolion a phlant) ledled Cymru. Mae'r Nyrsys Dynodedig wedi cyfrannu'n gyson i waith y Bwrdd drwy ddarparu arbenigedd annibynnol ar bob lefel i gynorthwyo asiantaethau ar draws y rhanbarth. Mae cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y Byrddau Gweithredol yn rhoi

cefnogaeth sylweddol i ddatblygiad parhaus y broses o Adolygu Ymarfer Plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac i Uned Fusnes y Bwrdd. Maent yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) o fewn agenda'r Bwrdd CYSUR.




Mae Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru yn hanfodol i'r cydweithio, gan gysylltu'n llwyddiannus yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn cynorthwyo Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer diogelu. Mae'r cydweithredu hwn wedi hwyluso'r broses o gyflawni targedau ymestynnol yn llwyddiannus yn 2018-19 ac wedi helpu i wneud y defnydd gorau o'r arbenigedd enfawr ar draws y grŵp. Gan weithio gyda'i gilydd, mae'r rhwydwaith wedi datblygu dysgu a chymorth proffesiynol arbenigol ac wedi rhannu arferion gwaith diogelu da yn ogystal â gwybodaeth am faterion cenedlaethol cyfredol drwy ymgysylltu â grwpiau sy'n bodoli eisoes. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, Canllawiau Arfer Gorau'r Hebryngwr, yr Adroddiad Dysgu oddi wrth Adolygiadau a phecyn hyfforddi pwrpasol y GIG sy'n ymdrin â deddfwriaeth, Holi a Gweithredu o dan ddeddfwriaeth VAWDASV.

Uchelgais y Tîm Diogelu Cenedlaethol yw y dylai egwyddorion a dyletswyddau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl gael eu cymhwyso mewn ffordd gyfannol, gyson ac effeithiol gan na ellir sicrhau manteision pob un ohonynt ar wahân. Ni fuasai'r hyn a gyflawnodd Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn bosibl ond drwy'r partneriaethau agos a'r cydweithio a chyd-greu ar lefel uchel.

## Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)

Cynrychiolir Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yng nghyfarfodydd Byrddau Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac maent yn cymryd rhan mewn Is-Grwpiau a Grwpiau Gweithredol Lleol yn ôl yr angen. Maent yn parhau i gefnogi agenda strategol diogelu ehangach ar draws y rhanbarth. Maent yn aelodau o Grŵp Llywio Rhanbarthol MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol) ac maent wedi cefnogi gwaith parhaus VAWDASV ar draws y rhanbarth.
Yn dilyn lansiad Addewidion Plant a Phobl Ifanc WAST yn 2017 (sy'n cefnogi Hawliau Plant), mae WAST yn parhau i wneud i bob cyswllt gyfrif drwy gofnodi profiadau plant o WAST.

Gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd ABMU a'r Uned Hawliau Plant, trefnwyd sesiwn Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer staff & gwirfoddolwyr a oedd yn trafod Hawliau Plant, Addewidion Plant a Phobl Ifanc WAST a thechnegau chwarae therapiwtig a thynnu sylw yn rhoi awgrymiadau i staff a ffyrdd clyfar o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i'w helpu i gyflawni eu rôl, gan gynnwys gwneud arsylwadau'n haws.
Mae WAST wedi gwneud gwaith sylweddol eleni i wella profiadau plant a phobl ifanc y gallai fod angen iddynt gysylltu â 999. Er mwyn bod o gymorth i alwyr ifanc, mae WAST yn gofyn i blant a phobl ifanc bleidleisio ar eiriau gwahanol sy'n addas ar gyfer plant, y gellir eu defnyddio wrth ateb galwadau 999 e.e. tamp, abdomenol, gwirio. Yn dilyn yr ymgysylltu, bydd y banc o eiriau yn cael eu rhannu gyda chydweithwyr yn y ganolfan alwadau i nodi'r geiriau hynny y bydd plant a phobl ifanc yn eu deall tra'n dal i fod â'r un ystyr i sicrhau bod ymateb cywir yn cael ei anfon. Yn 2018, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bu'r Ymddiriedolaeth yn ymweld ag Ysgolion Cynradd ledled Cymru yn ystod mis Hydref i redeg ein hymgyrch 'Shoctober ', gyda'r nod o addysgu plant

ysgolion cynradd sut i ddefnyddio gwasanaethau 999 yn briodol ac addysgu sgiliau achub bywyd. Gyda chymorth staff a gwirfoddolwyr gan gynnwys Ambiwlans Sant Ioan, Meddyg Achosion Brys y Bwrdd Iechyd a myfyrwyr Prifysgol, ymwelwyd â nifer o ysgolion, gan gyrraedd dros 2,100 o blant ledled Cymru.

Trwy bartneriaethau gyda rhwydweithiau cydraddoldeb Hywel Dda a mynychu nifer o ddigwyddiadau cymunedol, mae WAST wedi cynnal nifer o weithdai gwybodaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer teuluoedd ffoaduriaid o Syria a chymunedau BAME. Maent hefyd wedi datblygu pecyn gwybodaeth adnoddau am wasanaethau WAST i gynorthwyo teuluoedd BAME/ffoaduriaid pan fyddant yn cyrraedd y wlad.

Mae gwaith wedi'i wneud hefyd gyda Gwasanaeth Cludo Cleifion nad ydynt yn achosion brys (NEPTS) er mwyn helpu i wella ymwybyddiaeth staff o ofalwyr a gwella'r cymorth a'r gefnogaeth y gallant eu cynnig i ofalwyr. Mae NEPTS bellach wedi ennill Gwobr Efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, cynllun sy'n cael ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol a phartneriaid trydydd sector yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r cyflawniadau allweddol eraill WAST eleni yn cynnwys cyhoeddi llyfryn "Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – arweiniad i Ymarferwyr Brys", gweithredu Cynllun Iechyd Meddwl gan gynnwys caffael Pennaeth Iechyd Meddwl o fewn y Sefydliad, gweithio o gwmpas gwiriadau DBS a recriwtio diogel a'r agenda troseddau difrifol a threisgar.

### Esiampl o Ymarfer Diogelu

Mae **Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru** wedi canolbwyntio eleni ar atgyfeiriadau diogelu, ar ôl caffael system atgyfeirio ddigidol newydd sydd wrthi'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd, yn ogystal â sicrhau monitro atgyfeiriadau'n barhaus er mwyn ei gwneud yn bosibl nodi unrhyw feysydd o bryder. Mae WAST hefyd yn sicrhau bod unrhyw broblemau rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg yn cael eu dyrchafu i lefel genedlaethol os oes modd i hyn ddatrys y broblem. Mae llwybrau atgyfeirio hefyd wedi cael eu datblygu ar gyfer staff sy'n profi cam-drin domestig, yn ogystal â llwybr penodol ar gyfer atgyfeiriadau i'r gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r prosesau hyn yn ei gwneud yn bosibl ymateb yn ddynamig, yn gymesur ac yn effeithiol i atgyfeiriadau a dderbynnir.

## Heddlu Dyfed Powys

Mae Heddlu Dyfed Powys (DPP) wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithgar iawn i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn amlwg wrth i swyddogion fod yn bresennol yn rheolaidd a chyfranogi ar bob lefel o'r Bwrdd, gan gynnwys y Byrddau Gweithredol, Grwpiau Gweithredol Lleol a phob Is-grŵp. Parheir i roi cefnogaeth sylweddol i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer rhanbarthol, ac mae swyddogion Heddlu Dyfed Powys wedi ymgymryd â rôl Cadeirydd y Panel ar gyfer nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant sy'n mynd ymlaen a rhai sydd wedi'u cwblhau. Mae hyn yn cynnwys cyd-hwyluso digwyddiadau dysgu i ymarferwyr a rheolwyr. Mae cynrychiolydd Bwrdd Arolygol Heddlu Dyfed Powys yn parhau i ddal swydd Is-gadeirydd Bwrdd CWMPAS. Mae DPP wedi canolbwyntio ar wella a datblygu ei ymateb i gam-drin domestig (DA), gan weithio'n agos gyda sefydliadau eraill o fewn y grŵp VAWDASV rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth a gwella ymatebion

amlasiantaethol i ddioddefwyr. Mae'r gwaith wedi cynnwys cyflwyno desg Agored i Niwed yn ei Ganolfan Rheoli Heddlu i roi cymorth ychwanegol i swyddogion sy'n mynd allan i digwyddiadau.

Mae DPP wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid y Bwrdd i sicrhau bod swyddogion rheng flaen yn nodi ac yn ymateb yn briodol i gam-drin domestig (DA) ar bob lefel risg. Yn y gorffennol, mae canran fechan o ddigwyddiadau risg isel heb arwain bob tro at gwblhau'r asesiadau risg DA angenrheidiol, ac mae'r heddlu wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r ymateb sy'n ofynnol. Mae archwiliadau a gynhaliwyd yn fwy diweddar wedi datgelu gwelliannau sylweddol. Mae gwaith pellach wedi'i wneud i gyflwyno'r rhaglen Operation Encompass yn y rhanbarth, ac mae'r DPP wedi gweithio ochr yn ochr â Thimau Diogelu Addysg i ddatblygu'r dull gweithredu hwn ym mhob ardal Awdurdod Lleol. Proses hysbysu'n fuan yw Operation Encompass rhwng yr Heddlu ac ysgolion, lle mae Cam-drin Domestig wedi digwydd yn y cartref, i hyrwyddo ymatebion priodol a chymorth i blant gan athrawon a staff yr ysgol.

**Esiampl o Ymarfer Diogelu**

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae **Heddlu Dyfed Powys wedi** arwain nifer o brosesau gorfodi yn llwyddiannus mewn perthynas â'r bygythiad o 'Linellau Sirol' oddi wrth gangiau troseddol. Am y tro cyntaf yng Nghymru gwelwyd erlyn troseddwr yn llwyddiannus am fasnachu plentyn gyda bwriad troseddol (cyflenwi cyffuriau rheoledig). Mae dulliau ar y cyd gan Dîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu a'r Timau Rheoli Troseddwyr wedi arwain at lawer o lwyddiannau wrth adnabod ymddygiad ar-lein gan droseddwyr rhyw.

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Dyfed Powys (YJS)

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) wedi gwneud cyfraniad llawn a gweithredol i'r Byrddau Diogelu drwy bresenoldeb rheolaidd a chyson yn y Byrddau Gweithredol a'r Grwpiau Gweithredol Lleol ac Is-grwpiau. Mae Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir Benfro yn parhau i gynrychioli buddiannau Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol yn y Byrddau Gweithredol a'r Is-grwpiau, gan ddosbarthu gwybodaeth i gydweithwyr ar draws ardal Dyfed Powys drwy Gyfarfodydd Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol.

Mae pob Grŵp Gweithredol Lleol yn ymgysylltu ac yn trafod â'u Rheolwyr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lleol sy'n cyfrannu i'r agenda ddiogelu leol.
Ar yr 8fed o Fai 2018 daeth cyfrifoldebau'r Awdurdodau Lleol i hysbysu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid am ddigwyddiadau Diogelu Cymunedau ac Amddiffyn y Cyhoedd (CSPPI) i ben. Yn awr, mae gofyn gwneud penderfyniadau yn lleol p'un a ddylid adolygu a sut i adolygu digwyddiadau sy'n peri pryder, a rhai a allai arwain at ddysgu amlasiantaethol proffesiynol.

Mae rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid Rhanbarthol wedi arwain y broses o ddatblygu Fframwaith Dysgu ac Adolygu CSPPI, a fydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â Fforwm Rhanbarthol MAPF ac yn eistedd dan strwythur llywodraethu'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

## Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC)

Cynrychiolir y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NSP) a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) ar y Byrddau Gweithredol, Grwpiau Gweithredol Lleol a rhai Is-grwpiau. Mae'r pwysau parhaus o ran adnoddau wedi effeithio ar allu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol i gyfranogi a chymryd rhan mewn gwaith a phrosiectau rhanbarthol yn gyson. Mae'r Bwrdd Diogelu Gweithredol Rhanbarthol wedi gofyn am eglurhad ar gyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd diogelu yn y dyfodol yng ngoleuni'r ailstrwythuro Cenedlaethol sydd i ddod a'r newidiadau arfaethedig yng Nghymru.

## Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Cyfarwyddwr Statudol Cymunedau Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadeirio Bwrdd CYSUR ac mae wedi cyflawni'r rôl hon am nifer o flynyddoedd, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol gyson i'r Bwrdd Gweithredol a'i Grwpiau Gweithredol Lleol a'i Is-grwpiau. Gwnaeth Sir Gaerfyrddin gyfraniad llawn a gweithredol i'r Byrddau a'r Is-grwpiau sylfaenol gyda staff diogelu dynodedig yn bresennol yn gyson. Mae Sir Gaerfyrddin wedi arwain y broses o ddatblygu protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn rhanbarthol, sy'n cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth yn amserol rhwng gweithwyr proffesiynol pan nodir pryderon.

Mae Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin wedi cynnal prosiect peilot ar ran y Bwrdd Diogelu, fel rhan o'r prosiect 'Gwella', mewn partneriaeth â Barnardo's. Prosiect tair blynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw hwn gyda'r nod o leihau'r risg o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn profi camfanteisio rhywiol neu'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'r prosiect yn archwilio'r ddamcaniaeth fod cydberthynas rhwng profi trawma mewn plentyndod cynnar a'r potensial i ddioddef camfanteisio'n rhywiol neu i ddatblygu ymddygiad rhywiol niweidiol yn ystod y glasoed.

Mae Pennaeth y Gwasanaeth ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu yn parhau i gadeirio'r Grŵp Rhanbarthol ar Hunanladdiad a Hunan-Niwed, yr is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a'r grŵp strategol VAWDASV rhanbarthol. Mae'r arweinydd strategol a gweithredol ar gyfer Diogelu Oedolion yn arwain y Grŵp o Arweinwyr Diogelu Oedolion Rhanbarthol, sy'n ymdrechu i wella a sefydlu ymarfer diogelu oedolion cyson ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

### Esiampl o Ymarfer Diogelu

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** wedi ailddylunio ei broses atgyfeirio diogelu er mwyn sicrhau un pwynt mynediad cyson a chadarn. Mae wedi creu swyddi swyddogion penodol ar gyfer dyletswydd diogelu sy'n sicrhau ymateb unigolyn-ganolog buan i bob atgyfeiriad diogelu.

## Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod lletyol rhanbarthol ar gyfer Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'n hwyluso Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Cyfarwyddwr Statudol presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol yw Cadeirydd Bwrdd CWMPAS. Mae Cyfarwyddwr Addysg Statudol Sir Benfro yn cynrychioli'r ardaloedd eraill yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru fel yr arweinydd strategol rhanbarthol dros Addysg. Mae Sir Benfro yn parhau i elwa o Dîm Diogelu Integredig sy'n cyfuno materion diogelu plant ac oedolion yn un gwasanaeth unedig.

Mae Rheolwr Hyfforddiant Corfforaethol Sir Benfro yn parhau i gadeirio'r Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol ac mae wedi arwain y broses o ddatblygu'r Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol Pob Oed sydd bellach wedi cael ei gyhoeddi, sef un o gyflawniadau allweddol y Bwrdd eleni. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Integredig ar gyfer Diogelu wedi arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r fforwm MAPF rhanbarthol, ac mae wedi bod yn gyfrwng i sefydlu Grŵp Ymarfer Rhanbarthol ar gyfer Cadeiryddion Cynadleddau Amddiffyn Plant.

Mae Gwasanaethau Diogelu Integredig Sir Benfro wedi cefnogi'r broses o Adolygu Ymarfer Plant yn rhanbarthol drwy ryddhau Uwch Reolwyr i fod yn Adolygwyr Annibynnol ac yn Gadeiryddion Paneli ar gyfer Adolygiadau Ymarfer. Mae hyn wedi golygu ymrwymiad sylweddol o ran adnoddau gan Sir Benfro.

### Esiampl o Ymarfer Diogelu

Mae Gwasanaeth Diogelu Integredig Sir Benfro, ynghyd â'r Adran Hyfforddiant Corfforaethol, wedi datblygu Modiwl Hyfforddiant E-ddysgu ar y cyd ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu Sylfaenol ar gyfer Plant ac Oedolion. Mae'r model hwn bellach wrthi'n cael ei ddefnyddio fel sail i ddatblygu modiwl hyfforddiant amlasiantaethol tebyg ar gyfer Partneriaid ar y Bwrdd Rhanbarthol.

## Cyngor Sir Powys

Mae Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Powys yn parhau i wynebu heriau yn dilyn eu harolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2017, a dynnodd sylw at bryderon a diffygion sylweddol o ran darparu gwasanaethau i blant sydd mewn perygl ac sydd angen gofal a chymorth. Gwelodd 2018-19 benodi Cyfarwyddwr Statudol parhaol a Phennaeth Gwasanaethau Plant. Mae sefydlogrwydd ar lefel strategol uwch wedi bod yn fodd i gryfhau cydberthnasau a chyfathrebu'n well â Chadeirydd Bwrdd Diogelu CYSUR. Rhoddwyd sicrwydd i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol mewn perthynas ag ymrwymiad Powys i'w strategaeth ar gyfer y gweithlu, ac maent yn gweithio'n galed i ddatrys eu problemau recriwtio staff. Ategir hyn gan strwythur gwasanaeth newydd sy'n cyd-fynd â'r gofynion a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Eleni, nodwyd gwelliannau pellach o ran darparu data ac archwiliadau amserol rheolaidd fel rhan o Fframwaith Perfformiad a Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol y Byrddau. Mae presenoldeb ac ymgysylltiad yn yr Is-Grwpiau Adolygu Ymarfer Rhanbarthol wedi gwella.

Fodd bynnag, mae heriau a phwysau parhaus wedi effeithio ar allu Powys i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol yn rheolaidd. Gwnaed y sefyllfa hon yn fwy anodd gan lefelau trosiant staff uchel a newidiadau mewn swyddi allweddol ar lefel Rheolwyr Gwasanaethau, sydd wedi effeithio ar ymgysylltiad a phresenoldeb mewn Is-grwpiau rhanbarthol eraill a chymryd rhan mewn ffrydiau gwaith.

Mae gwasanaethau oedolion Powys wedi parhau i wneud cyfraniad llawn a gweithredol i'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'i waith. Mae presenoldeb ac ymgysylltiad ym Mwrdd Gweithredol CWMPAS a'i Is-grwpiau wedi bod yn rheolaidd ac yn gyson, gyda lefel uchel o gyfranogiad a mewnbwn gan yr Uwch Arweinydd Diogelu Oedolion, sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad dogfen Ganllaw Trothwy Diogelu Oedolion, ynghyd ag Is-grwpiau eraill y Bwrdd a ffrydiau gwaith.

Mae uwch arweinwyr strategol wedi mynegi eu hymrwymiad cryf i bartneriaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i gweledigaeth strategol a'i dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae hyn wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol bod gan Bowys ddiddordeb a rhan wirioneddol bellach yn yr agenda ranbarthol a gwaith y Bwrdd. Mae angen ymgysylltu a phresenoldeb mwy rheolaidd a chyson gan uwch arweinwyr, yn enwedig yn y Byrddau Gweithredol rhanbarthol, i ddangos a rhoi tystiolaeth eu bod yn bartneriaid parod yn y cydweithio rhanbarthol.



## Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud cyfraniad llawn ac effeithiol i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar bob lefel. Mae uwch swyddogion wedi mynychu a gweithio ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, ac mae cynrychiolaeth gyson briodol ym mhob un o'r Is-grwpiau Rhanbarthol a nodwyd. Maent wedi gwneud cyfraniad sylweddol i Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad Rhanbarthol y Byrddau gan ddarparu data amserol a rhaglen archwilio leol, sydd wedi canolbwyntio ar gynnydd mewn perthynas â'u hasesiadau Arwyddion Diogelwch a lles, ac argaeledd meddygon i gynnal Asesiadau Amddifadu o Ryddid.

Mae Ceredigion wedi arwain y broses o ddatblygu nifer o brosiectau ar gyfer y Byrddau yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys datblygu polisi rhanbarthol ar gyfer cyfathrebu â phobl sydd â nam ar y synhwyrau. Mae'r Uwch Reolwr Gweithredol ar gyfer Diogelu Oedolion wedi chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu'r Ddogfen Drothwy Ranbarthol ar gyfer Diogelu Oedolion sydd mewn Perygl. Mae hi wedi arwain nifer o brosiectau pwrpasol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac mae'n arwain adolygiad a hunanasesiad o arferion yn dilyn materion a godwyd yn Adroddiad Tawel Fan yng Ngogledd Cymru.

Darparwyd cefnogaeth sylweddol i'r Adolygiad Ymarfer Rhanbarthol a phroses MAPF gan uwch reolwyr o'r Gwasanaethau Plant. Mae Cadeiryddion Paneli wedi cael eu darparu ar gyfer nifer o Adolygiadau Ymarfer sy'n mynd ymlaen, ac mae cymorth wedi'i ddarparu i'r Fforwm MAPF rhanbarthol sy'n datblygu, sydd wedi cynnwys hwyluso Digwyddiadau Dysgu i awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth.
Mae gwella systemau ar gyfer rheoli, sgrinio a llwybrau gwasanaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig wedi bod yn ffocws allweddol i Geredigion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

### Esiampl o Ymarfer Diogelu

Cydlynodd **Tîm Diogelu Oedolion Ceredigion** ymchwiliad amlasiantaethol ar raddfa fawr i bryderon am gam-drin sefydliadol. Deilliodd cyfleoedd dysgu ôl-fyfyrio da o'r broses hon i bawb dan sylw, a fydd yn sail i ymarfer yn y dyfodol.

Mae darpariaeth Ymyl Gofal wedi ehangu ac mae ymarfer yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr ag asiantaethau sy'n bartneriaid, gan ddefnyddio ymyriadau dwys sy'n seiliedig ar gryfder er mwyn diogelu plant a lleihau'r angen i'w derbyn i mewn i ofal mewn modd diogel.

## Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol

Mae pob un o'r partneriaid addysg rhanbarthol yn berchen ar fframwaith cyson ar gyfer sicrhau ansawdd diogelu mewn ysgolion, proses hunan-arfarnu flynyddol ac archwiliad allanol bob tair blynedd. Cynrychiolir Addysg ar bob Grŵp Gweithredol Lleol ac Is-Grwpiau Byrddau. Mae unrhyw themâu sy'n codi o archwiliadau diogelu, megis diogelwch safle, hyfforddiant, alinio polisïau a chysondeb ymarfer, yn cael eu rhannu gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr.
Cynrychiolir staff addysg ym mhob Is-grŵp Rhanbarthol. Mae staff wedi chwarae rhan

weithredol yn y gwaith o ddatblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol, ac maent wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth CAMHs ar y gwaith parhaus o ddatblygu Llwybr Atal Hunanladdiadau rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson ar draws yr ardal gyfan o wella llwybrau atgyfeirio a hyfforddi staff rheng flaen.

Mae Sir Benfro wedi lansio Operation Encompass, sy'n rhoi gwybod yn fuan i ysgolion am gam-drin domestig. Mae gwaith yn parhau gydag awdurdodau lleol eraill i wreiddio hyn mewn ymarfer ar draws rhanbarth CYSUR, fydd yn sicrhau bod plant sy'n dyst i gam-drin domestig yn eu cartrefi yn cael eu hadnabod a'u cefnogi'n well.

Rhoddwyd cymorth i ddatblygu Gweithdrefnau Diogelu/Amddiffyn Cymru Gyfan yn ogystal â chefnogaeth a chyngor parhaus i ddatblygu Canllawiau Statudol Cenedlaethol ar gyfer Plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref.

## Addysg Bellach Ranbarthol (AB)

Mae'r Colegau Addysg Bellach (AB) yn y rhanbarth wedi cefnogi gwaith y Byrddau ac wedi cydymffurfio'n llawn wrth fabwysiadu eu polisïau. Maent hefyd wedi cefnogi gwaith y Byrddau drwy ddarparu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd. Fe'u cynrychiolwyd ar Is-grwpiau'r Bwrdd gan yr Uwch Arweinydd Dynodedig ar gyfer Diogelu yng Ngholeg Sir Benfro, sef cyswllt y Byrddau ar gyfer Colegau Addysg Bellach. Mae hi wedi rhoi lefel uchel o gefnogaeth i waith parhaus y rhanbarth ar atal hunanladdiad, ac wedi mynd ati i gynnal y cyfarfod Ymarfer Rhannu Gwybodaeth Broffesiynol sy'n cael ei gynnal i reoli marwolaethau pobl ifanc 18-25 oed. Mae hyn yn debyg i'r broses PRUDiC ac fe'i cyflwynwyd yn Sir Benfro fel cynllun peilot yn 2018/19. Mae rhagor o gymorth sylweddol wedi'i roi i broses ranbarthol Adolygu Ymarfer Plant, ac mae'r arweinydd AB rhanbarthol wedi ymgymryd â rôl yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel ar gyfer yr Adolygiadau Ymarfer Plant sy'n mynd ymlaen a'r rhai sydd wedi'u cwblhau.


## Cynrychiolydd Comisiynu Rhanbarthol

Cynrychiolir Partneriaeth Gomisiynu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y Byrddau Gweithredol ac mae'n cysylltu â Phartneriaeth Gomisiynu Powys ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith rhanbarthol wedi cefnogi'r strategaeth VAWDASV ranbarthol a'r Cynllun Cyflawni, gan ganolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r tirlun comisiynu VAWDASV presennol a sefydlu llwyfan ar gyfer comisiynu Gwasanaethau VAWDASV.

Cynhaliodd yr arweinydd strategol ar gyfer Partneriaeth Gomisiynu Gorllewin Cymru archwiliad thematig ar ran y Bwrdd ar berfformiad darparwyr cartrefi gofal a nyrsio yn 2018-19, a oedd yn rhoi sicrwydd bod yna systemau a mesurau cadarn ar waith ar gyfer gweithdrefnau comisiynu ar draws y rhanbarth. Datblygwyd Protocol Rhanbarthol ar Uwchgyfeirio Pryderon, Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant Sgiliau Comisiynu, a Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau, sydd wedi bod yn sail i'r broses o ddatblygu Rhaglen Hyfforddiant Comisiynu Ranbarthol a Chanolbwynt Datblygu'r Gweithlu.
Mae gwaith ar wella ansawdd contractau gyda darparwyr wedi parhau drwy gydol 2018-19. Mae pob contract newydd yn llawer cryfach o ran diogelu a'r ddyletswydd i adrodd am bryderon diogelu, yn ogystal â disgwyliadau o ran ymgysylltu â phrosesau megis Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

# (g) Asesiad o'r modd y mae'r bwrdd yn defnyddio'i adnoddau


**Cyfraniadau Partner**




Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn defnyddio'r fformiwla ariannu genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau sy'n bartneriaid statudol. Mae'r graffiau a'r siartiau isod yn darlunio sut mae'r Byrddau wedi defnyddio'u hadnoddau ariannol o fewn cyd-destun incwm, gwariant a chyfraniadau partneriaid yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Cydnabyddir nad yw'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u cyfyngu neu eu caethiwo i gyfraniadau ariannol gan asiantaethau sy'n bartneriaid statudol. Mae Cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, Cadeiryddion yr Is-grwpiau a'r aelodau yn rhoi cryn dipyn o'u hamser i gefnogi'r Byrddau a'u gwaith. Mae hyn yn aml yn ychwanegol

**Incwm 2018-19**




at eu swyddogaethau proffesiynol a nodwyd a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Mae natur wahanol ac amrywiol gwaith y Byrddau yn ei gwneud hi'n anodd adrodd ar hyn yng nghyd-destun adnoddau mesuradwy a meintiol ac nid yw bob amser yn amlwg i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Rhai enghreifftiau yn unig o waith y Bwrdd yw proses, rheoli a chyhoeddi Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, datblygu protocolau a pholisïau rhanbarthol, yn ogystal â phrosiectau sy'n gofyn am lefelau uchel o fewnbwn, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol.

Mae holl bartneriaid statudol Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyfrannu'n ariannol at redeg y Byrddau, ac eithrio Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyfraniadau hyn yn seiliedig ar ardaloedd poblogaeth o fewn y rhanbarth ar draws y sefydliadau amrywiol. Cyfanswm yr incwm i'r Byrddau Diogelu oedd £125,065, sef yr isaf ar draws Cymru. Yn 2018-19, aeth y rhan fwyaf o wariant y Byrddau ar gostau rhedeg cyffredinol, gan gynnwys staffio'r Uned Fusnes (£93,669), Gweinyddu/TG (£11,464) a theithio/lleoliadau ar draws yr ôl troed rhanbarthol eang (£4,726).

Fodd bynnag, cafodd swm mawr (£3,807) ei wario eleni ar gomisiynu gwasanaethau a/neu hyfforddiant, yn cynnwys adolygiad o Ymarfer Ymholiadau Diogelu Plant Adran 47, hwyluso Bwrdd Iau CADW a gwasanaeth eiriol pobl ifanc rhanbarthol gyda TGP a hyfforddiant amlasiantaethol pwrpasol.

**Gwariant 2018-19**







# (ng) Themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r byrddau diogelu wedi arfer eu swyddogaethau

**Diogelu Pobl**
Mae'r symud i gyfarfodydd cyfunol ac agenda plant ac oedolion gwbl integredig ar lefel ranbarthol a lleol wedi datblygu a chadarnhau dull strategol y Byrddau o ddiogelu pobl.


Mae hyn wedi cryfhau'r cydweithio rhanbarthol ymhellach, a gwelwyd tystiolaeth glir o hyn yn nifer y prosiectau ar y cyd llwyddiannus a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.




**Sicrhau her effeithiol ac atebolrwydd proffesiynol wrth ddarparu ymarfer diogelu**
Mae datblygiadau pellach i Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd y Byrddau, sy'n cynnwys set ddata gynhwysfawr ochr yn ochr â'r amserlen archwilio leol a thematig ar gyfer y rhanbarth, wedi parhau i gynorthwyo'r Byrddau i ddeall arferion diogelu proffesiynol yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae cynnwys data gan Heddlu Dyfed Powys a'r Byrddau Iechyd Rhanbarthol wedi rhoi persbectif amlasiantaethol mwy crwn ar weithgarwch.

Mae themâu a thueddiadau, yng nghyd-destun y defnydd o **Adran 46 (Deddf Plant 1989)**, Pwerau Diogelu'r Heddlu, rheoli Pryderon Proffesiynol, dealltwriaeth o Alluedd Meddyliol a Gofal Briwiau Gwasgu i bobl hŷn, wedi cael eu nodi fel meysydd y mae angen eu dadansoddi neu eu gwella ymhellach. Bydd datblygiad parhaus y fframwaith hwn a darparu data perfformiad o ansawdd da yn gymorth i'r Byrddau yn eu hymrwymiad i herio a dwyn asiantaethau i gyfrif yn effeithiol, pan fydd arferion diogelu a chyflawni gwasanaethau'n syrthio'n fyr o'r safonau disgwyliedig.

Mae themâu eraill a nodwyd eleni drwy ffrydiau gwaith y Bwrdd yn cynnwys Hunan-esgeulustod a'r gydberthynas â MAPF ac atgyfeiriadau APR, a PRUDiCs cydgysgu sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac alcohol.




**Adolygiadau Ymarfer**
Mae nifer o Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn. Mae'r themâu a nodwyd i'w hystyried o ganlyniad i'r Adolygiadau hyn yn cynnwys:

- Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth staff iechyd ynghylch anableddau dysgu ac anawsterau dysgu, a'u heffaith ar rianta
- Gwell systemau i wella'r cyfathrebu rhwng Meddygon Teulu, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd
- Datblygu a gweithredu Protocol Rhanbarthol ar gyfer Anafiadau mewn Babanod nad ydynt yn Gallu Symud
- Datblygu Polisi Rhanbarthol ar Ymddygiad Peryglus
- Codi ymwybyddiaeth o Weithdrefnau Absenoliaeth mewn Ysgolion ar gyfer disgyblion blwyddyn 11.
- Hyfforddiant Briwiau Gwasgu, Dementia a Chadw Cofnodion ar gyfer Rheolwyr Cartrefi Gofal

**Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol**

Bydd gweithredu'r Fframwaith MAPF Rhanbarthol i gefnogi a chynorthwyo dysgu yn cefnogi ymhellach y gwaith o nodi themâu a thueddiadau rhanbarthol cyffredin yn y flwyddyn i ddod.

**Arwyddion Diogelwch (SoS)**

Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol ar draws y rhanbarth naill ai wedi gweithredu Arwyddion Diogelwch (SoS) neu maent yn y broses o gyflwyno'r model ymarfer hwn i dimau gwaith cymdeithasol i raddau amrywiol. Mae'r Arwyddion Diogelwch yn ddull diogelu mwy cynhwysol, unigolyn-ganolog sy'n canolbwyntio ar ddatrys, ac mae'n ceisio gwella ac annog mwy o gyfranogiad gan ddefnyddiwr y gwasanaeth.

Mae egwyddorion craidd y model yn ategu ysbryd ac ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ceisio gosod cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau yng nghanol ymyrraeth broffesiynol gyda phlant, eu teuluoedd ac oedolion sydd mewn perygl. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sefydlwyd grŵp arwyddion diogelwch rhanbarthol sy'n ystyried gwaith cydweithredol rhanbarthol a chydgomisiynu hyfforddiant. SoS yw thema Cynhadledd Ranbarthol y Byrddau sydd i ddod yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd 2019.



# (h)Pryd a sut mae plant ac oedolion wedi cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y byrddau

**Presenoldeb yn y Bwrdd Gweithredol**
Roedd aelodau ifanc o CADW: y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ym mis Ebrill 2018. Trefnwyd y cyfarfod mewn ffordd oedd yn caniatáu i'r bobl ifanc eistedd i mewn ar drafodaethau y teimlai'r Bwrdd y gallent gyfrannu mewnbwn gwerthfawr iddynt, yn ogystal ag eitem ddynodedig ar yr agenda, oedd yn caniatáu i CADW roi adborth ar faterion y teimlent eu bod yn berthnasol iddynt.

**Adborth gan Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ar fewnbwn CADW:**

*"Gallai amryw o eitemau eraill ar yr agenda fod yn gyfoethocach o gael mewnbwn person ifanc"*

Trafodwyd amrywiaeth o bynciau gan y Bwrdd ynghyd â'r bobl ifanc, yn arbennig diddordeb i hwyluso cyfranogiad pellach mewn Byrddau Gweithredol. Teimlai un person ifanc, er bod cael mewnbwn CADW i'r agenda yn werthfawr iawn, fod yr adran hon yn dal i deimlo'n gwbl ar wahân i weddill y cyfarfod a bod modd integreiddio ymhellach.

Cytunai Aelodau'r Bwrdd, er bod angen gwahaniaethu rhwng pa feysydd sy'n briodol i'w trafod yn y fformat ar y cyd hwn, bod manteision sylweddol o ran caniatáu rhagor o drafodaethau cydweithredol gyda phobl ifanc fel rhan o'r Bwrdd Gweithredol. Nodwyd y cyfryngau cymdeithasol ac atal hunanladdiad a hunan-niwed fel meysydd allweddol y gallai'r bobl ifanc gyfrannu iddynt.

Roedd gan y Bwrdd ddiddordeb arbennig yn safbwyntiau'r bobl ifanc ar Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE). Eu teimladau oedd y byddai cofrestr o blant EHE yn ddefnyddiol iawn o ran sicrhau nad ydynt yn llithro oddi ar y radar, ac roeddent yn synnu'n fawr i ddarganfod y gallai disgyblion ym mlynyddoedd 10 ac 11 ddod yn EHE heb i'w dymuniadau hwy eu hunain gael eu hystyried. Eto, yn y fan hon, amlygwyd gwerth lleisiau pobl ifanc a'u gallu i fynegi barn werthfawr.



Aelodau CADW yn y Bwrdd Gweithredol

Wrth ystyried achosion lle gallai plant ddod yn EHE o ganlyniad i gyrhaeddiad academaidd isel, barn un person ifanc oedd nad oedd anhawster i sicrhau canlyniadau da yn golygu o reidrwydd nad oedd ar y person ifanc eisiau gwella a pharhau yn y math hwnnw o Addysg. Cytunwyd yn ddiweddarach y dylid danfon y cyflwyniad EHE a glywyd yn gynharach gan y Bwrdd i CADW (a digwyddodd hyn ym Mai 2018), ac roedd y Bwrdd

o'r farn y byddai'n werthfawr i berson ifanc gyfrannu i'r mater.Gwnaeth ymddygiad y bobl ifanc oedd yn bresennol, yn enwedig eu lefel uchel o allu wrth fynegi barn a thrafod materion cymhleth, argraff fawr ar y Bwrdd Gweithredol. Oherwydd effeithiolrwydd y cyfarfod hwn, teimlid y dylid defnyddio rhagor o gyfleoedd i gydweithio â'r bobl ifanc er mwyn cyfoethogi'r trafodaethau a chryfhau'r cysylltiadau â CADW yn unol â'r nodau strategol.

**Adborth gan berson ifanc oedd yn bresennol yn y Bwrdd Gweithredol:**

***"Roedd hi'n braf cael sgwrs ddeallus am broblemau gwirioneddol sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru."***

**Prosiectau CADW a blaenoriaethau person ifanc**

Mae CADW wedi gwneud sawl darn allweddol o waith eleni i fynd i'r afael â'r materion diogelu sy'n peri'r mwyaf o bryder iddynt.

Roedd y bobl ifanc wedi ymdrin â'r darnau gwaith hyn mewn ffordd oedd yn teimlo'n hynod o hygyrch ac atyniadol, gan archwilio'r ffyrdd arloesol y gallent fynd i'r afael â materion dadleuol a'r problemau difrifol y mae eu cyfoedion yn eu hwynebu. Enghraifft wych o'r dull hwn yw'r [fideo 'Rap ydy o'.] Awgrymodd y bobl ifanc amrywiaeth o eiriau y maent yn eu cysylltu â diogelu pobl ifanc, a buont yn ystyried rhai o'r prif heriau y maent yn eu hwynebu yn y gymdeithas fodern. Defnyddiwyd y rhain wedyn i greu 'rap' am ddiogelu, oedd yn cyfeirio at secstio, y cyfryngau cymdeithasol a bwlio, a ffilmiwyd i greu fideo y gellid ei rannu yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol. Teimlai CADW yr hoffent ddefnyddio'r prosiect hwn fel ffordd i godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.




Pobl ifanc CADW yn sefyll ar gyfer y fideo "Rap ydy o"



Archwiliodd CADW y mater o ddiogelwch ar-lein ymhellach drwy eu prosiect Incognito. Ystyriodd y bobl ifanc y gallu i weithredu'n ddienw ar-lein, a ph'un ai mwy o fanteision ynteu mwy o risgiau sydd yna i bobl ifanc o wneud hyn. Er bod mynd 'incognito' yn amddiffyn hunaniaethau pobl ifanc ac felly'n rhoi haen o amddiffyniad, mae hefyd yn cynnig y cyfle i unigolion hudo pobl ifanc drwy gogio dod yn ffrindiau.

Dangoswyd y broblem hon gan CADW drwy greu mygydau, gyda'r bwriad o ddangos y mwgwd y gall pobl guddio y tu ôl iddo ar-lein. Yna cynhaliwyd sesiwn dynnu lluniau i ddathlu eu gwaith, a dangoswyd y rhain hefyd yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol.

**Prosiectau CADW sy'n cysylltu â gweithgareddau'r Bwrdd**

Maes arall y mae CADW wedi canolbwyntio arno yw eiriolaeth, ac mae gan wraidd y gwaith hwn gysylltiadau agos ag un o nodau'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol. Mae'r bobl ifanc wedi bod yn ystyried yr opsiynau eiriolaeth sydd ar gael iddynt a sut y gellid eu gwella er mwyn rhoi lle blaenllaw i blant a phobl ifanc yn y prosesau hyn, a mynegwyd diddordeb arbennig yn y posibilrwydd o greu ap eiriolaeth. Mae CADW hefyd wedi sôn am ap fel ffordd ddefnyddiol o hyrwyddo gweithgarwch diogel ar-lein, drwy ddarparu platfform ar gyfer 'cynghorion' i lynu wrthynt wrth ddefnyddio ffonau symudol. Mae CADW wedi cynnal trafodaethau buddiol iawn ynghylch y gwaith hwn yn 2018-19, a fydd yn parhau i'r flwyddyn nesaf.




Ar y dde: lluniau eraill o waith CADW yn ystod y flwyddyn



Cafodd cryfhau cysylltiadau â CADW ei lesteirio'n rhannol eleni o ganlyniad i newidiadau staffio o fewn y Bwrdd a CADW. Gobeithir y bydd creu swydd Swyddog Datblygu Busnes ychwanegol o fewn y Bwrdd yn ei gwneud yn bosibl cael cysylltiadau agosach â'r bobl ifanc wrth symud ymlaen, ac alinio gwaith a blaenoriaethau wedi hynny. Un o'r nodau allweddol wrth gyflawni hyn yw cynlluniau strwythuredig ar gyfer cyfathrebu a chyfarfodydd er mwyn sicrhau ymgysylltu'n rheolaidd ac yn gyson. Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn ddull allweddol o gydweithredu â CADW, gyda chynlluniau i archwilio potensial y maes hwn yn 2019/20 fel rhan o ffocws technolegol ehangach.

Bu aelodau **Grŵp Diogelu a Chyfranogi Iau Powys, 'Bwyta Moron, Bod yn Ddiogel rhag Eliffantod',** yn dathlu eu degfed pen-blwydd eleni, yn ffurf "Parti'r 10fed Pen-blwydd". At hynny, chwaraeodd aelod o'r grŵp ran allweddol yng nghynhyrchiad gwaith y grŵp rhanbarthol ar 'Rap ydy o' ac eiriolaeth. Mae Powys yn parhau i gynnig cyfraniad gwerthfawr i brosiectau rhanbarthol allweddol, er gwaethaf yr heriau a wynebir o ran cynnull pobl ifanc ar draws ardal ddaearyddol mor anferth.

Ym mis Gorffennaf 2018, bu **Gofalwyr Ifanc Powys a Lleisiau Pobl Ifanc sy'n Ofalwyr** mewn digwyddiad preswyl lle roedd penderfyniadau cyfundrefnol allweddol yn cael eu gwneud, yn cadarnhau dulliau cyfathrebu a chysondeb cyfarfodydd. Nododd y grŵp godi ymwybyddiaeth, cynrychiolaeth mewn grwpiau eraill i bobl ifanc a chodi arian fel blaenoriaethau allweddol. Mae'r grŵp yn teimlo ei bod hi'n bwysig sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli o fewn Bwyta Moron, er mwyn i'w gwaith gyrraedd ymhellach.

Chwaraeodd **'Sêr Saff' Ceredigion a Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion** ran ganolog ym mhrosiectau allweddol CADW yn ystod 2018-19. Maent wedi sicrhau bod y bobl ifanc yn eistedd wrth galon eu gwaith, gan annog aelodau i ddefnyddio'u doniau a'u galluoedd eu hunain i gyfrannu at waith grŵp. Enghraifft ardderchog o hyn yw sioe ffasiynau Ceredigion, gyda'r fideo yn cael ei gyfarwyddo gan aelod ifanc â galluoedd arbennig mewn gwneud ffilmiau. Nododd Sêr Saff feysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt ar ddechrau'r flwyddyn, gan gynnwys bwlio, y cyfryngau cymdeithasol, camfanteisio rhywiol, negeseuon rhywiol, cyffuriau ac alcohol, a'r peryglon i bobl ifanc sy'n mynd allan ar eu pen eu hunain. Gwelodd 2018-19 gyfoeth o brosiectau yn cael eu cynnal oedd yn ymwneud yn agos â'r themâu hyn, yn benodol y prosiect 'Incognito' oedd yn cael ei arwain yn bennaf gan sêr saff a'r rap diogelu. Bu'r grŵp yn ystyried dulliau eraill o gyfathrebu a fyddai'n ei gwneud yn bosibl targedu pobl ifanc, gan gynnwys sianel YouTube ac ymweliadau ag ysgolion. Mae pobl ifanc y grŵp yn dangos ffocws clir ar eu nodau a'u dulliau strategol o sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Mynychodd Sêr Saff yr Ŵyl Plant a Phobl Ifanc Flynyddol yn Aberaeron unwaith eto ym mis Awst 2018, gan gynorthwyo gydag amrywiaeth o stondinau. Gan gydweithio â Bwyd Dros Ben Aber, creodd y bobl ifanc "feic smwddi" gan ddefnyddio ffrwythau a roddwyd gan Gronfa Elusen Gymunedol Tesco. Ymhlith y gweithgareddau eraill a gefnogwyd gan y grŵp roedd bwth ffotograffau 'Mynegi Eich Hun' a pheintio wynebau, gyda themâu sylfaenol hawliau plant a chadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yn cael eu hybu drwy'r holl weithgareddau.


Person ifanc yn gwneud teisennau ar gyfer yr ŵyl

Mae Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn parhau i redeg cynllun Llysgenhadon Cymunedol Hawliau Plant. Eleni, fe wnaethon nhw fynychu gweithdy i ystyried 'Beth Nawr?', a buont yn rhannu eu syniadau a'u barn am y cynnydd a wnaed gan Gomisiynydd Plant Cymru gyda'i chynllun tair blynedd a'i blaenoriaethau ar gyfer 2015-18. Buont yn rhannu eu syniadau ynglŷn â'r hyn y dylai'r Comisiynydd Plant ganolbwyntio arno ar gyfer y cynllun tair blynedd nesaf. Mae canfyddiadau 'Beth Nawr?' wedi helpu i lywio blaenoriaethau'r Comisiynydd Hawliau Plant ar gyfer 2019-22.

Mae Llysgenhadon Cymunedol Hawliau Plant wedi cynnal ail genhadaeth i godi ymwybyddiaeth o seiberfwlio eleni. Yn ystod y sesiwn, buont yn trafod effeithiau bwlio ar-lein drwy roi eu hunain yn esgidiau rhywun arall. Yna, fe fuont yn cymryd rhan mewn creu celfyddyd gyfoes wedi'i hysbrydoli gan stori Sam, person ifanc a oedd yn dioddef seiberfwlio. Defnyddiodd y grŵp hen barau o esgidiau fel man cychwyn ar gyfer eu hymatebion unigol, gan addasu ac ychwanegu deunyddiau a gwrthrychau newydd i greu eu celf 3D cyfoes eu hunain. Creodd yr artistiaid ifanc esgidiau Sam i adlewyrchu'r teimladau a'r emosiynau y gallai Sam eu cael yn anodd, a dangosai'r esgid arall y ffordd y gallai pobl ifanc fynd i'r afael â bwlio. Mae Llysgenhadon Cymunedol Hawliau Plant yn teimlo'n angerddol ynglŷn â'u gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso drwy gael rôl weithredol mewn gwneud newid yn eu cymuned.

Mae rhan o'u gwaith yn cynnwys cael hyfforddiant ar sut i godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ymhlith pobl ifanc a'i effaith ar eu bywydau.


Hywel Dda Consultation

Mae Llysgenhadon Cymunedol Hawliau Plant yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant yng Nghymru i wneud yn siŵr bod yr holl blant a phobl ifanc yn gwybod eu hawliau er mwyn medru byw bywydau diogel, iach a hapus.

Mae cyflawniadau eraill Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn 2018-19 yn cynnwys eu hymwneud gweithredol â phroses ymgynghori Hywel Dda ar gyfer gwasanaethau iechyd newydd. Clywodd y grŵp am y newidiadau arfaethedig gan Hywel Dda a chael y cyfle i ystyried eu goblygiadau a darparu adborth gwerthfawr.




Cynhaliwyd cynhadledd ddiogelu iau gan Warcheidwaid Iau **Sir Benfro** fel rhan o'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd 2018. Roedd y gynhadledd yn croesawu disgyblion o bob ysgol uwchradd yn yr ardal, yn ogystal â Choleg Sir Benfro ac ysgolion annibynnol. Roedd y digwyddiad yn cynnwys dwy brif elfen; cyflwyno'r modiwl diogelu newydd a grëwyd ar gyfer pobl ifanc, a sesiwn a gyflwynwyd gan hyfforddwr iechyd meddwl o Ymddiriedolaeth Goffa Charlie Waller.

Gofynnwyd i'r 50 o fynychwyr yn y gynhadledd gwblhau ffurflen adborth ar y diwedd, a chafodd y canlyniadau eu coladu gan y bobl ifanc. O'r dewis o eiriau a roddwyd i ddisgrifio'u teimladau yn dilyn y gynhadledd, y dewisiadau mwyaf poblogaidd oedd 'gwybodaeth', 'cymhelliant' ac 'ysbrydoliaeth'. Aseswyd yr holl adborth ac ystyriwyd pa welliannau y gellid eu gwneud y flwyddyn nesaf. Cynhaliodd Gwarcheidwaid Iau Sir Benfro amrywiaeth eang o weithgareddau eraill fel rhan o NSGW, gan gynnwys sesiwn gyda fforwm diogelu lleol i benderfynu ar y materion mwyaf perthnasol iddynt, a chyflwyno gwybodaeth am y modiwl diogelu newydd mewn clwb ieuenctid lleol.
Cafodd y 'Great Council Bake-Off' ei redeg gan Warcheidwaid Iau Sir Benfro unwaith eto eleni, lle 'roedd pobl ifanc o wahanol grwpiau lleol yn coginio cacen gyda chymorth gwirfoddolwr o asiantaethau lleol. Dychwelodd Ian Westley (Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro), Stephen Crabb AS (Preseli Sir Benfro) a Paul Davies AC (Preseli Sir Benfro) fel beirniaid ar gyfer y digwyddiad. Roedd llawer o bobl yn bresennol ac fe wnaeth pawb a gymerodd ran fwynhau'r cyfan yn fawr, ac mae bwriad iddo ddigwydd eto yn 2019-20.

Llwyddiant nodedig arall yn 2018-19 oedd bod Gwarcheidwaid Iau Sir Benfro wedi eu gosod ar restr fer Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd y bobl ifanc yn bresennol yn y digwyddiad yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, ac roeddent wrth eu boddau yn derbyn safle 'canmoliaeth uchel'. Cwblhawyd y cais am y gwobrau gyda mewnbwn aelodau ifanc y Gwarcheidwaid, a rhoddodd hyn gyfle iddynt rannu a dathlu eu gwaith rhagorol.

Yn ystod 2018-19, cyhoeddodd Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ei Strategaeth gysylltiedig â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Chynllun Cyflawni 5 mlynedd. Mae'r strategaeth 'Bywydau Diogelach, Cydberthnasau Iachach' yn amlinellu sut y bydd y rhanbarth yn cefnogi unrhyw un sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod. Bydd yn galw tramgwyddwyr i gyfrif ac yn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr offer a'r wybodaeth i weithredu, bydd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r mater a sut i gael gafael ar gymorth. Bydd hefyd yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall

**Adborth gan gynrychiolwyr o'r Gynhadledd Iau:**

***"Wedi cael gwybodaeth, cymhelliant ac ysbrydoliaeth"***

anghydraddoldeb mewn cydberthnasau a bod ymddygiad lle ceir camdriniaeth bob amser yn anghywir. Nodir ymgysylltu â goroeswyr fel egwyddor allweddol sy'n sail i'r strategaeth.

Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth, cynhaliwyd nifer o grwpiau ffocws ar draws y rhanbarth gyda goroeswyr a fu'n ymwneud â'r gwasanaethau drwy gydol 2017-18 a dechrau 2018-19. Cynhaliwyd o leiaf un grŵp yn ardal pob awdurdod lleol, a chynhaliwyd grwpiau ffocws penodol ar gyfer goroeswyr gwrywaidd ac unigolion a oedd wedi dioddef trais a chamdriniaeth rywiol.

Diben y grwpiau ffocws oedd deall yn well brofiadau goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod yn y rhanbarth wrth gael gafael ar gymorth, eu barn ynglŷn ag atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a'r ystyriaethau pennaf ar gyfer y strategaeth. Nododd goroeswyr "yr hyn sy'n gweithio", gan amlygu bylchau yn y ddarpariaeth bresennol a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella.
Aethpwyd â'r strategaeth yn ôl i'r goroeswyr am eu barn a'u sylwadau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, gan roi cyfle iddynt ystyried sut roedd eu cyfraniad wedi siapio a llywio'r ddogfen ddrafft. Cynhaliwyd nifer o grwpiau ffocws ar draws y rhanbarth yn ogystal â chyfweliadau 1-i-1 gyda nifer o oroeswyr oedd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ymgynghori.

Mae'r strategaeth yn cydnabod pa mor hanfodol yw cydweithredu â goroeswyr a defnyddwyr gwasanaethau, sy'n 'arbenigwyr drwy brofiad' o ran yr hyn sydd wedi gweithio iddynt, eu llwybrau drwy wasanaethau a pha mor hawdd (neu anodd) fu hi i ddod o hyd i'r gwasanaeth cywir a symud tuag at annibyniaeth a rhyddid oddi wrth gamdriniaeth.

Mae lleisiau a phrofiadau goroeswyr wedi bod yn ganolog o ran llywio a siapio datblygiad y Strategaeth ac wedi helpu i baratoi'r llwybr ar gyfer gweledigaeth strategol y Byrddau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r cynnydd a wnaed o ran datblygu strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i oedolion sydd mewn perygl, drwy gyfrwng gweithdai ar gyfer staff a gwaith cydweithredol wedi ei gynllunio gyda fforymau rhanbarthol eraill, yn amlwg drwy gydol yr adroddiad.

Progress in respect of the development of a service user engagement strategy for adults at risk by way of workshops for staff and planned joint collaborative work with other regional forums is evidenced throughout the report.



Pobl ifanc a gwirfoddolwyr yn y 'Great Council Bake-Off 2018'



# (i) Ceisiadau am orchmynion amddiffyn a chymorth i oedolion

Ni wnaed unrhyw geisiadau am Orchmynion Amddiffyn a Chymorth i oedolion (APSOs) yng nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod 2018-19. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod y tueddiad hwn yn adlewyrchu gweithgarwch mewn meysydd eraill ac mae'n croesawu unrhyw sylwadau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r rhesymau tebygol am hyn.

# (l) Gwybodaeth neu ddysgu y mae'r byrddau wedi eu lledaenu a'r hyfforddiant a argymhellwyd neu a ddarparwyd

**Y Wefan**






Hyfforddiant Diogelu Oedolion

Mae gwefan y Byrddau yn gweithredu fel canolbwynt gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys sut i adrodd am bryder a'r hyfforddiant sydd ar gael yn y rhanbarth. Cyhoeddir pob adroddiad Adolygu Ymarfer ar wefan y Bwrdd am gyfnod o 12 wythnos, yn ôl y ddeddfwriaeth, ac ar ôl hynny cânt eu symud ond maent ar gael o hyd ar gais. Defnyddir y wefan hefyd fel cyfrwng i hyrwyddo digwyddiadau diogelu ac i rannu dysgu ac arfer da. Enghreifftiau o'r rhain yw:

- Yr adolygiad thematig, a gomisiynwyd yn rhanbarthol ac a gynhaliwyd gan Cascade ar ran y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Dynladdiadau Domestig a Dynladdiadau Iechyd Meddwl. Mae hwn ar gael i'r cyhoedd.

- Codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gamfanteisio, gan gynnwys caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Mae hyn yn cael ei rannu ar wefan y Byrddau fel rhan o Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2018.

**Hyfforddiant**
Fel y nodir yn rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol & Llesiant (Cymru) 2014, dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol sicrhau bod ymarferwyr yn eu hardal yn cael mynediad ac yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i amddiffyn plant ac oedolion.

Mae cwblhau a chyhoeddi Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol, amlasiantaethol eleni, ynghyd â chynllun cyflawni cysylltiedig, wedi gosod y sylfeini ar gyfer gwaith yr Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol dros y tair blynedd nesaf. Mae dadansoddiad o anghenion hyfforddiant a gwblhawyd fel rhan o'r gwaith hwn wedi rhoi tystiolaeth a sicrwydd i'r grŵp bod hyfforddiant diogelu ar gael, ac yn cael ei ddarparu ar draws y bartneriaeth amlasiantaethol a bod rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr yn eu lle, sy'n targedu grwpiau staff amrywiol o fewn sefydliadau.



Mae strwythur a threfniadau darparu hyfforddiant diogelu ar draws asiantaethau yn amrywio yn unol â fframweithiau llywodraethu a hyfforddiant mewnol pob sefydliad.

Er enghraifft, mae sefydliadau Iechyd yn dilyn Sgiliau Craidd y DU 2016 a Diogelu Plant a Phobl Ifanc: rolau a chymwyseddau ar gyfer staff gofal iechyd - DOGFEN RYNG-GOLEGOL Mawrth 2014, ac mae'n ofynnol i'r heddlu sicrhau bod hyfforddiant yn cydymffurfio â gofynion gorfodol fel y'u nodir gan y Coleg Plismona Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gan bob asiantaeth sy'n bartner i Fyrddau Diogelu'r Canolbarth a'r Gorllewin ddyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu clir ar y cyd fel yr amlinellir yn Rhan 7 o'r Ddeddf.

Mae'r cynllun cyflawni wedi nodi rhai targedau uchelgeisiol ar gyfer y grŵp, sy'n cynnwys datblygu ap Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a chynlluniau i gomisiynu a darparu hyfforddiant amlasiantaethol rhanbarthol. Mae datblygu modiwl cyson ar gyfer darparu Hyfforddiant sylfaenol ar Ddiogelu Oedolion a chefnogi unrhyw themâu a nodir o adolygiadau ymarfer a MAPFs wedi bod yn ffocws i'r grŵp yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r hyfforddiant penodol ar ddiogelu sydd wedi'i ddarparu yn y rhanbarth ac a gefnogwyd gan y Grŵp Hyfforddi Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Hyfforddiant mewn perthynas â **Hwyluso Digwyddiadau Dysgu ar gyfer Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol** (a ddarlunnir uchod) oedd yn cefnogi'r Fforwm MAPF rhanbarthol i wella hyder staff yn y maes hwn a chynyddu nifer y Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol a gomisiynwyd ac a gyflawnwyd.

- Enghreifftiau o drefniadau oedd yn eu lle ar lefel asiantaeth leol yn cynnwys hyfforddiant a ddarparwyd i **Staff Bwrdd Iechyd Hywel Dda** ar **atal briwiau gwasgu**.

- **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** yn cydweithio â Chanolfan ACE Iechyd Cyhoeddus Cymru i edrych ar **Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth ar gyfer ACEs**.

- **Heddlu Dyfed Powys** yn comisiynu 'Bywydau Diogelach', a gefnogwyd gan Hafan Cymru i ddarparu **Hyfforddiant Materion Cam-drin Domestig.**

- Mae hyfforddiant diogelu wedi'i ddarparu ar draws y pedwar Awdurdod Lleol i nifer fawr o **Ymarferwyr a Rheolwyr Amlasiantaethol** i gefnogi cyhoeddi'r Ddogfen Drothwy Ranbarthol ar gyfer Diogelu Oedolion a Chanllawiau Statudol ar gyfer ymdrin ag achosion unigol.

- Er bod gan bob asiantaeth a sefydliad gyfrifoldeb unigol o dan ddeddfwriaeth **VAWDASV** i gynllunio a chyflwyno eu cynlluniau hyfforddi eu hunain, mewn perthynas â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, mae is-grŵp hyfforddiant rhanbarthol newydd wedi cael ei ddatblygu sy'n adrodd yn uniongyrchol i Grŵp Strategol VAWDASV Rhanbarthol. Canolbwyntiwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar y cyfrifoldeb i gyflwyno hyfforddiant i grwpiau 1 a 2 fel yr amlinellir yn y Fframwaith Cenedlaethol. Mae pob asiantaeth yn ddieithriad wedi nodi heriau sylweddol o ran bodloni disgwyliadau'r Fframwaith a'r gofyn i hyfforddi nifer fawr o staff. Mae oedi cyn egluro'r trefniadau comisiynu ar lefel genedlaethol o ran hyfforddiant Gofyn a Gweithredu wedi ychwanegu at yr heriau a'r anawsterau cyson hyn.

- Mae'r Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol wedi cefnogi a darparu nifer o ddigwyddiadau hyfforddi amlasiantaethol i nifer fawr o staff yn ogystal â rhieni a gofalwyr maeth. Mae hyn yn cynnwys yr Ymgyrch Codi Ymwybyddiaeth o Gam-Drin Plant yn Rhywiol 'Stop it Now' ar gyfer plant sy'n agored i risg o Gam-Drin Rhywiol neu sydd mewn mwy o berygl o hynny. Targedwyd rhieni a oedd yn defnyddio gwasanaethau ataliol megis Dechrau'n Deg a'r Tîm o Amgylch y Teulu ar gyfer yr hyfforddiant hwn.

- Mynychodd staff a oedd yn gweithio mewn gwasanaethau ataliol ar draws y rhanbarth **Hyfforddiant Torri'r Distawrwydd** hefyd, sef sesiwn ddysgu ryngweithiol i'r staff i rannu arfer gorau ar gyfer adnabod, gwrando ac ymateb i ddatgeliadau o gam-drin a wneir gan blant a phobl ifanc.

- **Cyflwynodd Black Association of Women Step Out (BAWSO)** hyfforddiant mewn perthynas â'r Llwybr Cyfeirio Cenedlaethol er mwyn hyrwyddo adrodd yn brydlon ac yn amserol am ddioddefwyr Caethwasiaeth Fodern.

Wrth i'r Grŵp Hyfforddi Rhanbarthol barhau i ddatblygu ac aeddfedu, bydd ganddo rôl fwy penodol a chanolog yn y gwaith o ddarparu hyfforddiant ar ddiogelu ar draws y rhanbarth, a bydd yn gallu cynnig gwell arweiniad a chymorth i asiantaethau wrth ddarparu hyfforddiant diogelu.

# (m) Sut mae'r byrddau diogelu wedi gweithredu cyngor gan lywodraeth cymru a'r bwrdd diogelu annibynnol cenedlaethol

Nid oes unrhyw gyngor penodol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno i Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae Cadeiryddion Byrddau Gweithredol CYSUR a CWMPAS yn parhau i weithio'n agos gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ar feysydd a nodwyd lle mae'n ystyried y gallai canllawiau polisi a deddfwriaeth gadarnach wella arferion diogelu.

Mae deialog a thrafodaeth barhaus a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys yr angen am well gwasanaethau iechyd fforensig i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol, deddfwriaeth gryfach i blant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref a'r angen am ganllawiau cliriach ynglŷn â'r gofynion am i brosesau recriwtio Adnoddau Dynol ar gyfer gwiriadau'r DBS gynnwys gweithwyr presennol.



# Y gwahaniaeth yr ydym ni'n ei wneud gyda'n gilydd

Mae symud tuag at agenda strategol pob oed wedi'i chyfuno'n llawn ar lefel ranbarthol a lleol yn gymorth i ddarparu arferion a gwasanaethau diogelu cadarn sydd wedi galluogi byrddau CYSUR a CWMPAS i gydweithio i helpu i wella bywydau dinasyddion a chymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn ogystal â galluogi'r Byrddau i gyflawni eu hamcanion fel y'u hamlinellwyd yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r dull cyfunol hwn o Ddiogelu yn cyd-fynd yn llwyr ag ethos ac egwyddorion y Ddeddf.

Mae gwaith y Byrddau wedi cael effaith uniongyrchol ar ymarfer proffesiynol. Mae enghreifftiau'n cynnwys cwblhau a chyhoeddi tri pholisi rhanbarthol a dogfennau arweiniad, sydd i gyd yn rhoi arweiniad i'r staff sy'n darparu gwasanaethau diogelu ar draws y rhanbarth. Bydd gwaith y Byrddau ar drothwyon a rhannu gwybodaeth yn hyrwyddo ymateb mwy cyson a phrydlon i'r rhai sydd â'r angen mwyaf ac sydd mewn perygl.

Mae'r gwelliannau i'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a chyflwyno Adroddiadau ar Berfformiad wedi rhoi dealltwriaeth well i'r Bwrdd Gweithredol o arferion diogelu o fewn cyd-destun amlasiantaethol rhanbarthol. Mae dadansoddiad o themâu a thueddiadau rhanbarthol mewn perthynas ag ymholiadau amddiffyn plant ac oedolion, camfanteisio'n rhywiol ar blant, Plant sy'n Derbyn Gofal a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi helpu i lywio gwaith a ffocws y Byrddau i'r dyfodol.

Mae archwiliad thematig, rhanbarthol, trylwyr o ddatblygiad y gweithlu ar draws y timau diogelu plant wedi gosod y sylfeini ar gyfer cynnal gwaith ar y cyd gyda Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae gwaith a gyflawnwyd gan yr Uwch Arweinydd Strategol ar gyfer comisiynu wedi cryfhau ymarfer diogelu mewn cartrefi gofal.

Mae Bwrdd CYSUR yn arbennig o falch o'i Fwrdd Diogelu Iau CADW a'r Grwpiau Diogelu Iau lleol a phartneriaethau ieuenctid ar draws y rhanbarth. Bydd mwy o gapasiti yn Uned Fusnes y Bwrdd a newidiadau staff yn y TGP yn gymorth i sicrhau y caiff y gwaith ardderchog a wnaed hyd yma ei atgyfnerthu yn y flwyddyn sydd i ddod.



# Geirfa:

**APR/CPR** – Adolygiad Ymarfer Oedolion / Adolygiad Ymarfer Plant
**MAPF** – Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol
**VAWDASV** – Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol
**MACSE/CSE** – Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Amlasiantaethol / Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
**LOG** – Grŵp Gweithredu Lleol
**NSGW** – Wythnos Ddiogelu Genedlaethol
**ERW** – Gweithio Rhanbarthol mewn Addysg
**EHE** – Addysg Ddewisol yn y Cartref
**NISB** – Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
**DoLS** – Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
**CIW** – Arolygiaeth Gofal Cymru
**IICSA** – Ymchwiliad Annibynnol i Gam-Drin Plant yn Rhywiol
**PRUDiC** – Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod
**ACEs** – Profiadau Andwyol mewn Plentyndod
**PTHB** – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
**CYPP** – Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
**CAMHS** – Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc
**MARAC** – Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol
**MAPPA** – Trefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd
**PHW** – Iechyd Cyhoeddus Cymru
**NST** – Tîm Diogelu Cenedlaethol
**WAST** – Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
**DPP** – Heddlu Dyfed Powys
**YJS** – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
**NPS** – Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
**CRC** – Cwmni Adsefydlu Cymunedol
**SoS** – Arwyddion Diogelwch
**PSE** – Addysg Bersonol a Chymdeithasol
**ADEW** – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
**LGBTQ+** – Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Cwestiynu a mwy
**DBS** – Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
**MARF** – Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol
**DHR** – Adolygiad Dynladdiadau Domestig
**DA** – Cam-drin Domestig
**SARC** – Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
**BAME** – Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig
**CSPPI** – Diogelu Cymunedol a Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd
**YJB** – Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
**UNCRC** – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn